TGAU

# TGAU CBAC
# HANES

CYMERADWYWYD GAN CYMWYSTERAU CYMRU

## MANYLEB

Addysgu o 2017
I'w ddyfarnu o 2019

Fersiwn 3 Chwefror 2024



Nid yw'r cymhwyster hwn a reoleiddir gan Cymwysterau Cymru ar gael i ganolfannau Lloegr.

# CRYNODEB O NEWIDIADAU

| Fersiwn | Disgrifiad | Rhif y dudalen |
|---|---|---|
| 2 | Newidiwyd yr adran 'Cofrestru' i egluro rheolau ailsefyll, y trosglwyddo marciau Asesu Di-arholiad a'r rheol derfynol. | 34 |
| 3 | Cywiro dyddiad yn uned 2A. | 14 |

# TGAU CBAC mewn HANES

## I'w addysgu o 2017
## I’w dyfarnu yn 2019

**Tudalen**

**Crynodeb o'r asesu** **2**

**1. Rhagarweiniad** **4**
1.1 Nodau ac Amcanion 4
1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant 5
1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg 6
1.4 Bagloriaeth Cymru 6
1.5 Persbectif Cymreig 6

**2. Cynnwys y Pwnc** **7**
2. 1 Uned 1 10
2.2 Uned 2 14
2.3 Uned 3 18
2.4 Uned 4 30

**3. Asesu** **31**
3.1 Amcanion asesu a phwysoli 31
3.2 Cynllun Asesu 32

**4. Gwybodaeth Dechnegol** **34**
4.1 Cofrestru 34
4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl 35

**5. Gweinyddu Asesiad di-arholiad** **36**

# TGAU HANES (Cymru)

# CRYNODEB O'R ASESU

**Uned 1: Astudiaethau Manwl – Cymru a'r persbectif ehangach**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr**
**25% o'r cymhwyster**

Yn yr uned hon mae dewis o **bedair** Astudiaeth Fanwl – pob un yn rhoi ystyriaeth i bersbectif Cymreig yn rhan o gyd-destun hanesyddol ehangach.
Mae canolfannau'n dewis **un** Astudiaeth Fanwl o blith y dewisiadau canlynol:

1A. Oes Elisabeth, 1558-1603
1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810-1848
1C. Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951
1Ch. Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd, 1951-1979

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Byddant yn canolbwyntio'n bennaf ar ddadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol. Hefyd bydd cwestiynau'n profi cysyniadau hanesyddol trefn dau.

**Uned 2: Astudiaethau Manwl – Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop / y byd**
**Arholiad ysgrifenedig : 1 awr**
**25% o'r cymhwyster**

Yn yr uned hon mae dewis o **bedair** Astudiaeth Fanwl – pob un yn rhoi ystyriaeth i hanes yng nghyd-destun Ewrop neu'r byd ehangach.
Mae canolfannau'n dewis **un** Astudiaeth Fanwl o blith y dewisiadau canlynol:

2A. Rwsia mewn Cyfnod o Newid, 1905-1924
2B. UDA: Gwlad Gwahaniaethau, 1910-1929
2C. Yr Almaen mewn Cyfnod o Newid, 1919-1939
2Ch. Newidiadau yn Ne Affrica, 1948-1994

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob opsiwn. Byddant yn profi cysyniadau hanesyddol trefn dau a hefyd yn dadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol.

**Uned 3: Astudiaethau Thematig o bersbectif hanesyddol eang**
**Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud**
**30% o'r cymhwyster**

Yn yr uned hon mae dewis o **bedair** Astudiaeth Thematig sy'n ymdrin yn eang ag agwedd benodol ar hanes. Mae'n canolbwyntio'n arbennig ar yr effaith gafodd hyn ar Gymru.

Mae canolfannau'n dewis **un** Astudiaeth Thematig o blith y dewisiadau canlynol:

3A. Newidiadau ym maes Trosedd a Chosb, tua 1500 hyd heddiw
3B. Newidiadau ym maes Iechyd a Meddygaeth, tua 1340 hyd heddiw
3C. Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw
3Ch. Newidiadau ym Mhatrymau Mudo, tua 1500 hyd heddiw

Bydd yr Astudiaeth Thematig yn cynnwys astudiaeth o safle hanesyddol priodol a'i arwyddocâd.

Bydd cwestiynau gorfodol yn asesu pob astudiaeth. Byddant yn canolbwyntio'n eang ar gysyniadau hanesyddol trefn dau gan gynnwys parhad, newid, achos, canlyniad, arwyddocâd, tebygrwydd a gwahaniaeth.

**Uned 4: Gweithio fel hanesydd**
**Asesiad Di-arholiad**
**20% o'r cymhwyster**

Yn yr asesiad di-arholiad bydd gofyn cwblhau dwy dasg wahanol, y naill yn canolbwyntio ar werthuso ffynonellau wrth greu naratif hanesyddol a'r llall yn canolbwyntio ar ffurfio dehongliadau hanesyddol gwahanol am hanes.

Ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer yr asesiad di-arholiad ddyblygu cynnwys unrhyw un o'r unedau arholiad a ddewisir na gorgyffwrdd â'r cynnwys hwnnw.

Bydd y cymhwyster unedol hwn ar gael yng nghyfres yr haf bob blwyddyn. Bydd cyfle i gofrestru am Uned 2 yn haf 2018. Caiff y cymhwyster llawn ei ddyfarnu am y tro cyntaf yn haf 2019.

**Rhif Cymeradwyo'r Cymhwyster: C00/1152/0**..

# TGAU HANES

# 1 RHAGARWEINIAD

## 1.1 Nodau ac Amcanion

Mae'r fanyleb TGAU CBAC Hanes yn annog dysgwyr i wneud y canlynol:

- meithrin eu diddordeb a'u brwdfrydedd am y pwnc hanes ynghyd â dealltwriaeth o'i werthu cynhenid a'i arwyddocâd
- meithrin ac ehangu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd ganddyn nhw am ddigwyddiadau, cyfnod a chymdeithasau hanesyddol penodol
- meithrin ac estyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth am hanes Cymru a'r persbectif Cymreig ar hanes
- caffael dealltwriaeth o hunaniaethau gwahanol o fewn cymdeithas, yn cynnwys eu cymdeithas eu hunain, a dirnadaeth o agweddau cymdeithasol, diwylliannol, crefyddol ac amrywiaeth ethnig
- adeiladu ar eu dealltwriaeth o'r gorffennol ac amrywiaeth y profiad dynol drwy gael profiad o gwrs astudio eang a chytbwys
- defnyddio proses o ymholi hanesyddol er mwyn gwella fel dysgwyr effeithiol, annibynnol a gwydn ac fel meddylwyr beirniadol a myfyriol
- meithrin y gallu i ofyn cwestiynau perthnasol ac ystyriol am y gorffennol ac i ymchwilio materion hanesyddol yn feirniadol
- caffael dealltwriaeth o natur astudiaeth hanesyddol, er enghraifft, bod hanes yn ymwneud â safbwyntiau a seiliwyd ar y dystiolaeth sydd ar gael ac y gall rhai safbwyntiau hanesyddol fod yn fwy dilys na safbwyntiau eraill
- meithrin eu defnydd a'u dealltwriaeth o dermau, cysyniadau a sgiliau hanesyddol
- defnyddio amrywiaeth o ffynonellau mewn cyd-destun er mwyn meithrin y gallu i lunio hawliadau hanesyddol dilys a realistig
- meithrin gwerthfawrogiad beirniadol o'r cysyniad o arwyddocâd hanesyddol a pham mae rhai pobl, digwyddiadau a datblygiadau'n cael eu hystyried yn arwyddocaol yn hanesyddol
- meithrin gwerthfawrogiad beirniadol o sut a pham y lluniwyd dehongliadau gwahanol am bobl, digwyddiadau a datblygiadau sy'n arwyddocaol yn hanesyddol
- gwneud cysylltiadau a thynnu cymariaethau o fewn ac/neu ar draws cyfnodau ac agweddau gwahanol ar y gorffennol
- trefnu a chyfathrebu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth hanesyddol mewn ffyrdd gwahanol, gan ddadlau achos a dod i gasgliadau cadarnhaol.

Mae cymhwyster TGAU CBAC Hanes yn atyniadol, gan roi cyfle i ddysgwyr astudio'r canlynol:

- agweddau penodol ar y gorffennol yn fanwl (tymor byr), ac yn eang (tymor canolig a thymor hir)
- hanes mewn amrywiaeth o gyd-destunau daearyddol: gosodiadau lleol, Prydain ac Ewrop a/neu'r byd yn ehangach
- parhad, newid, achos, canlyniad, arwyddocâd a thebygrwydd a gwahaniaeth dros gyfnodau gwahanol o amser – yn y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hir
- hanes Cymru a phersbectif Cymreig sy'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc sy'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas.

Mae strwythur nodweddiadol i'r fanyleb hon sy'n golygu bod cyfle i'r dysgwyr astudio hanes yn fanwl ac yn eang. Oherwydd y strwythur hwnnw gall dysgwyr wahaniaethu'n glir rhwng astudio hanes yn y tymor byr ac yn y tymor hir. Ar yr un pryd, gellir cysylltu gwahanol gyfnodau ac oesau mewn hanes, ac oherwydd hynny mae'r rhaglen astudio'n cydlynu.

## 1.2 Dysgu blaenorol a dilyniant

Nid oes gofynion dysgu blaenorol ar gyfer y fanyleb hon.  Yr ysgol/coleg sydd i benderfynu ar unrhyw ofynion sy'n cael eu pennu o ran cael mynediad i gwrs sy'n seiliedig ar y fanyleb hon.

Mae'r fanyleb hon yn adeiladu ar gynnwys pwnc a addysgir yn nodweddiadol ar gyfer cyfnod allweddol 3 ac mae'n gweithredu fel sail addas ar gyfer astudio hanes naill ai ar lefel UG neu Safon Uwch.  Yn ogystal, mae'r fanyleb yn darparu cwrs astudio sy'n gydlynol, yn foddhaol ac yn werth chweil i'r dysgwyr hynny nad ydynt yn symud ymlaen i astudio ymhellach yn y pwnc hwn.

## 1.3 Cydraddoldeb a mynediad teg

Gall unrhyw ddysgwr ddilyn y fanyleb hon, beth bynnag fo'i ryw a'i gefndir ethnig, crefyddol neu ddiwylliannol. Lluniwyd y fanyleb i osgoi, lle bo'n bosibl, nodweddion a allai, heb gyfiawnhad, ei gwneud yn fwy anodd i ddysgwr lwyddo oherwydd bod ganddynt nodwedd benodol wedi ei hamddiffyn.

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 y nodweddion penodol wedi'u hamddiffyn yw oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol.

Mae'r fanyleb hon wedi'i thrafod â grwpiau sy'n cynrychioli buddiannau ystod amrywiol o ddysgwyr, ac adolygir y fanyleb yn gyson.

Gwneir addasiadau rhesymol ar gyfer dysgwyr penodol fel bod yr asesiadau o fewn eu cyrraedd (e.e. caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio Dehonglydd Iaith Arwyddion, gan ddefnyddio Iaith Arwyddion Prydain). Mae gwybodaeth am addasiadau rhesymol i'w chael yn y ddogfen ganlynol gan y Cyd-gyngor Cymwysterau (CGC): *Trefniadau mynediad ac Addasiadau Rhesymol: Cymwysterau Cyffredinol a Galwedigaethol.*

Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk). ). Gan fod darpariaeth yn cael ei gwneud ar gyfer addasiadau rhesymol, prin iawn fydd nifer y dysgwyr fydd wedi'u hatal yn llwyr rhag unrhyw ran o'r asesiad.

## 1.4 Bagloriaeth Cymru

Dylai dysgwyr, wrth ddilyn y fanyleb hon, gael cyfleoedd, lle bo'n briodol, i ddatblygu'r sgiliau sy'n cael eu hasesu drwy Dystysgrif Her Sgiliau Tystysgrif Bagloriaeth Cymru:

- Llythrennedd
- Llythrennedd Ddigidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol.

## 1.5 Persbectif Cymreig

Wrth ddilyn y fanyleb hon, rhaid i ddysgwyr ystyried persbectif Cymreig os bydd cyfle i wneud hynny'n deillio'n naturiol o'r deunydd pwnc ac os byddai cynnwys y cyfleoedd hynny'n cyfoethogi dealltwriaeth dysgwyr o'r byd o'u cwmpas fel dinasyddion o Gymru yn ogystal â'r DU, Ewrop a'r Byd.

Yn Unedau 1 a 3 yn benodol bydd yn ofynnol i ymgeiswyr gyfeirio at effeithiau newid hanesyddol ar Gymru neu ar berspectif Cymreig. Bydd asesiadau Uned 1 yn cynnwys cwestiynau gorfodol yn gofyn am wybodaeth a dealltwriaeth o Hanes Cymru. Mae'r asesiadau Uned 3 yn defnyddio thema wrth drafod datblygiad hanesyddol. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ddefnyddio'r cyd-destun Cymreig yn eu hatebion i gwestiynau Uned 3 penodol.

# 2 CYNNWYS Y PWNC

Mae'r fanyleb hon yn gwrs astudio eang a chydlynol. Mae'r fanyleb yn sicrhau bod y canlynol yn cael eu hastudio:

- hanes ar raddfeydd amser gwahanol yn eu plith y tymor byr, y tymor canolig a'r tymor hirach
- hanes mewn cyd-destunau daearyddol amrywiol yn eu plith hanes lleol, Cymru, Prydain a'r byd ehangach
- hanes dros dair oes hanesyddol

Y nodweddion uchod felly sy'n sicrhau ehangder y fanyleb.

Mae'r fanyleb hon hefyd yn rhoi dull astudio hanes sy'n gydlynol ac yn gyfannol. Mae'n cynnig cyfle i athrawon hanes gyflwyno'r pwnc gan ddefnyddio amrywiol opsiynau fydd yn arwain at gwrs eang, cytbwys a chydlynol. Mae pob cyfuniad o opsiynau a ganiateir gan y fanyleb hon yn golygu bod modd i'r canolfannau lunio cwrs sy'n eang a chydlynol i'r dysgwyr. Mae pob uned yn cynnig persbectif gwahanol ar gyfer astudio hanes ac yn sicrhau ehangder a dealltwriaeth wrth wneud hynny.

**Uned 1: Astudiaethau Manwl – Cymru a'r persbectif ehangach**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr
25% o'r cymhwyster
50 marc (a 3 marc am sillafu, atalnodi a gramadeg a defnyddio iaith arbenigol)

Mae dysgwyr yn astudio **un Astudiaeth Fanwl** o'r pedwar dewis sydd ar gael. Yn yr uned hon mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar gyfnod amser byr cynhwysfawr a chydlynol yn hanes Cymru o fewn Prydain. Bydd cyfle gan y dysgwyr yn yr uned hon i ddeall yn fwy effeithiol pa mor gymhleth oedd cymdeithas yn hanes Cymru fel rhan o Brydain. Dylai dysgwyr ddeall sut mae profiad pobl yng Nghymru'n gallu bod yn nodedig ond bod y profiad hwnnw hefyd yn gallu cyfleu'r berthynas ehangach â Phrydain. Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau hanesyddol. Hefyd bydd dysgwyr yn astudio dehongliadau hanesyddol gwahanol ar ddigwyddiadau neu faterion penodol.

**Uned 2: Astudiaethau Manwl – Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop / y byd**
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr
25% o'r cymhwyster
50 marc (a 3 marc am sillafu, atalnodi a gramadeg a defnyddio iaith arbenigol)

Mae dysgwyr yn astudio **un Astudiaeth Fanwl** o'r pedwar dewis sydd ar gael. Yn yr uned hon mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar gyfnod amser byr cynhwysfawr a chydlynol yn hanes cymdeithas yn Ewrop neu'r byd ehangach. Bydd cyfle gan y dysgwyr yn yr uned hon i ddeall yn fwy effeithiol pa mor gymhleth oedd cymdeithas yn hanes Ewrop neu'r byd ehangach. Mae cyfle yn yr uned hon hefyd i ddysgwyr astudio hanes mewn cyd-destun daearyddol ehangach. Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i ddefnyddio amrediad eang o ffynonellau hanesyddol. Hefyd bydd dysgwyr yn cael cyfle i lunio amrywiaeth o ymatebion hanesyddol.

**Uned 3: Astudiaethau Thematig o bersbectif hanesyddol eang**

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 15 munud
30% o'r cymhwyster
60 marc (a 4 marc am sillafu, atalnodi a gramadeg a defnyddio iaith arbenigol)

Mae dysgwyr yn astudio **un Astudiaeth Thematig** o'r pedwar dewis sydd ar gael. Mae'r astudiaethau thematig yn cynnig cyfle i ddysgwyr astudio hanes yn eang ac o wneud hynny i ddeall sut newidiodd y datblygiadau a'r materion sy'n gysylltiedig â chyfnodau arbennig yng nghyd-destun hanes Prydain. Yn yr uned hon, dylid pwysleisio effaith y newid ar Gymru yn ei gyd-destun hanesyddol ehangach. Bydd yr astudiaethau thematig hefyd yn galluogi dysgwyr i ddeall newid a pharhad a thebygrwydd a gwahaniaeth ar draws ystodau hir o hanes, yn ogystal â nodweddion mwyaf arwyddocaol oesau gwahanol. Yn yr astudiaethau thematig bydd yr astudiaeth yn canolbwyntio ar oesau hanesyddol gwahanol a chyd-destunau daearyddol gwahanol os yw'n briodol gwneud hynny. Mae'r uned hon yn annog dysgwyr i feithrin dealltwriaeth o gysyniadau hanesyddol yn arbennig, yn eu plith mae parhad, newid, achos, canlyniad, arwyddocâd a thebygrwydd a gwahaniaeth. Yn y cwestiynau arholiad bydd gofyn i'r ymgeiswyr gyfeirio at effaith newidiadau ar Gymru neu o bersbectif Cymreig. Felly, rhaid astudio enghreifftiau o'r rhain.

Ymhlyg yng nghynnwys gofynnol pob un o'r Astudiaethau Thematig mae astudiaeth o safle hanesyddol yn rhan integredig o'r cynnwys hwnnw. Rhoddir arweiniad isod ar sut y dylai'r canolfannau fynd ati i astudio safle hanesyddol.

Ar gyfer pob dewis o Thema bydd un safle hanesyddol wedi'i enwebu i'w astudio. Dylid astudio'r safleoedd hanesyddol fel rhan o gynnwys gofynnol y fanyleb. Mae'r fanyleb yn rhoi arweiniad ynghylch y cynnwys gofynnol ar gyfer y safle hanesyddol a enwebwyd. Enwebwyd safleoedd sy'n gysylltiedig â hanes Cymru yng nghyd-destun ehangach Prydain. Nid yw'n ofynnol i ddysgwyr ymweld â'r safle.

Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol a enwebwyd, dylai dysgwyr ystyried y canlynol:

- nodweddion hanesyddol allweddol y safle
- arwyddocâd y safle hanesyddol ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol
- pa mor berthnasol yw'r safle hanesyddol i ddatblygiad y thema benodol dros amser
- sut mae'r safle hanesyddol yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o newidiadau dros amser

**Uned 4: Gweithio fel hanesydd (Asesiad di-arholiad)**
Asesiad di-arholiad
20% o'r cymhwyster
40 marc

- Mae'r asesiad di-arholiad yn hwyluso datblygu ac asesu sgiliau hanesyddol a sgiliau ehangach nad oes modd eu hasesu'n effeithiol mewn sefyllfaoedd arholiad. Y sgiliau arbennig sy'n cael eu datblygu a'u hasesu drwy'r asesiad di-arholiad yw ymholiad, llunio casgliadau cadarnhaol, dadansoddi ffynonellau a'u dehongli yn eu cyd-destun hanesyddol. Mae asesiad di-arholiad hefyd yn annog datblygu naratifau estynedig sy'n seiliedig ar ddadansoddi ac archwilio ffynonellau, dehongliadau gwahanol a chyd-destun hanesyddol, sgiliau ymchwiliol ac astudiaeth o hanes ar ffurf fwy arbenigol.

- Mae asesiad di-arholiad, ar ffurf sgiliau ymchwil, llunio naratifau estynedig yn seiliedig ar ddadansoddi, gwerthuso a llunio barn, archwilio hanes ar ffurf fwy arbenigol a datblygu dadansoddiad a gwerthusiad o ddehongliadau hanesyddol yn helpu sicrhau ei bod yn haws symud i'r Safon Uwch a thu hwnt.

- Yn Uned 4, bydd gofyn cwblhau dwy dasg wahanol, y naill yn canolbwyntio ar werthuso ffynonellau wrth greu naratif hanesyddol a'r llall yn canolbwyntio ar ffurfio dehongliadau hanesyddol gwahanol am hanes.

## Crynodeb o'r Opsiynau

### Uned 1: Astudiaethau Manwl – Cymru a'r persbectif ehangach

1A Oes Elisabeth, 1558-1603
1B Radicaliaeth a Phrotest, 1810-1848
1C Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951
1Ch Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd, 1951-1979

### Uned 2: Astudiaethau Manwl – Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop / y byd

2A Rwsia mewn Cyfnod o Newid, 1905-1924
2B UDA: Gwlad Gwahaniaethau, 1910-1929
2C Yr Almaen mewn Cyfnod o Newid, 1919-1939
2Ch Newidiadau yn Ne Affrica, 1948-1994

### Uned 3: Astudiaethau Thematig o bersbectif hanesyddol eang

3A Newidiadau ym maes Trosedd a Chosb, tua 1500 hyd heddiw
3B Newidiadau ym maes Iechyd a Meddygaeth, tua 1340 hyd heddiw
3C Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw
3Ch Newidiadau ym Mhatrymau Mudo, tua 1500 hyd heddiw

### Uned 4: Gweithio fel hanesydd – asesiad di-arholiad

Bydd CBAC yn darparu dewis eang o enghreifftiau o asesiadau di-arholiad y gall canolfannau ddewis o'u plith. Neu, gall canolfannau ddyfeisio eu tasgau asesiad di-arholiad eu hunain y mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn arddull a gofynion yr enghreifftiau y bydd CBAC yn eu cynnig. Caiff y tasgau hyn eu dilysu gan uwch safonwr cyn i ddysgwyr gychwyn ar eu tasgau.

### Cyfuniadau Wedi'u Gwahardd

Strwythurwyd yr opsiynau sy'n cael eu cynnig yn y cymhwyster hwn mewn ffordd sy'n golygu nad yw'n bosibl i unrhyw gynnwys sy'n cael ei farcio orgyffwrdd yn Unedau 1, 2 na 3. **Fodd bynnag, ni ddylai'r testunau a ddewisir ar gyfer yr asesiad di-arholiad yn Uned 4 ddyblygu cynnwys unrhyw un o'r unedau arholiad a ddewisir na gorgyffwrdd â'r cynnwys hwnnw.**

# 2.1 Uned 1 Astudiaethau Manwl – Cymru a'r persbectif ehangach

## 1A: OES ELISABETH, 1558-1603

Yn yr opsiwn hwn rhoddir sylw arbennig i themâu a materion dethol yn ymwneud â hanes Oes Elisabeth, o 1558 i 1603. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ystyried y prif ddylanwadau ar fywyd gwleidyddol a chymdeithasol yn ystod y cyfnod yn ogystal â mater gwrthdaro crefyddol. Dylai dysgwyr ddeall sut yr oedd profiad pobl yng Nghymru ar yr adeg hon yn nodedig ond bod y profiad hwnnw hefyd yn gallu cyfleu'r berthynas ehangach â Phrydain. Dylai dysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o sut y portreadwyd ac y dehonglwyd agweddau ar fywyd yn ystod y cyfnod hwn a dylent hefyd ymchwilio i'r cwestiynau allweddol ym mhob maes testun gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau hanesyddol. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| Cwestiynau allweddol | Cynnwys Gofynnol |
|---|---|
| **Llywodraeth Elisabeth:**<br>**Pa mor llwyddiannus oedd llywodraeth Elisabeth I?** | *Coroni a phoblogrwydd Elisabeth; y Llys Brenhinol, y Cyfrin Gyngor a chynghorwyr; llywodraeth leol yng Nghymru; rôl y Senedd: materion trethiant a rhyddid barn; bonedd Cymru – Catrin o Ferain; y teulu Wynn* |
| **Ffyrdd o fyw'r tlawd a'r cyfoethog:**<br>**Beth oedd y gwahaniaethau rhwng bywydau'r tlawd a'r cyfoethog yn oes Elisabeth?** | *Ffyrdd o fyw gwrthgyferbyniol y tlawd a'r cyfoethog; ffordd o fyw'r bonedd yng Nghymru - ffasiwn a chartrefi; Plas Mawr, Conwy, Castell Sain Ffagan; achosion tlodi; mater diweithdra a chrwydraeth; deddfwriaeth y llywodraeth gan gynnwys Deddf Tlodion 1601* |
| **Adloniant poblogaidd:**<br>**Beth oedd y mathau mwyaf poblogaidd o adloniant yn oes Elisabeth?** | *Pwysigrwydd adloniant poblogaidd; chwaraeon creulon; y theatr yn oes Elisabeth – dylunio a dramâu; agweddau tuag at y theatr yng Nghymru a Lloegr; adloniannau traddodiadol – Cnapan* |
| **Problem crefydd:**<br>**Pa mor llwyddiannus oedd Elisabeth wrth ddelio â phroblem crefydd?** | *Problemau crefyddol yn 1559; yr Ardrefniant Crefyddol; Deddfau Goruchafiaeth ac Unffurfiaeth; ymatebion i'r Ardrefniant Crefyddol yng Nghymru a Lloegr; cyfieithu'r Ysgrythurau i'r Gymraeg ac effaith hynny ar Gymru a'r Iaith Gymraeg: Esgob William Morgan, Richard Davies a William Salesbury* |
| **Y bygythiad Catholig:**<br>**Pam roedd y Catholigion yn fygythiad i Elisabeth?** | *Goddefiant cynnar; gwrthryfel Ieirll y Gogledd 1569; Esgymuno Elisabeth yn 1570; Cynllwynion Catholig: Ridolfi, Throckmorton, Babington; rôl Mari Brenhines y Sgotiaid; Reciwsantiaeth Gatholig yng Nghymru gan gynnwys Richard Gwyn, Edward Jones, John Jones a William Davies* |
| **Armada Sbaen:**<br>**Faint o fygythiad oedd Armada Sbaen?** | *Rhesymau dros yr Armada; cwrs yr Armada: digwyddiadau yn y Sianel, Calais, 'llongau tân' a dychwelyd i Sbaen; canlyniadau gorchfygiad yr Armada* |
| **Y bygythiad Piwritanaidd:**<br>**Pam daeth y Piwritaniaid yn fygythiad cynyddol yn ystod teyrnasiad Elisabeth?** | *Gwrthwynebiad Piwritanaidd yn y Senedd a'r Cyfrin Gyngor; mesurau a gymerwyd i ddelio â her y Piwritaniaid; agwedd yr awdurdodau yng Nghymru gan gynnwys prawf a dienyddiad John Penry, 1593* |

## 1B: RADICALIAETH A PHROTEST, 1810-1848

Yn yr uned hon rhoddir sylw manwl i rai themâu a materion dethol yn ymwneud â hanes Cymru a Lloegr yn ystod y cyfnod 1810-1848. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ystyried effaith twf radicaliaeth, 1810-1822, pwysigrwydd protestiadau diwydiannol gan roi sylw arbennig i ddigwyddiadau yng Nghymru ddiwydiannol, a natur y protestio gwledig yn ystod y cyfnod hwn. Dylai dysgwyr ddeall sut yr oedd profiad pobl yng Nghymru ar yr adeg hon yn nodedig ond bod y profiad hwnnw hefyd yn gallu cyfleu'r berthynas ehangach â Phrydain. Dylai dysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o sut y portreadwyd ac y dehonglwyd agweddau ar fywyd yn y cyfnod hwn a dylent hefyd ymchwilio i'r cwestiynau allweddol ym mhob maes testun gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau hanesyddol. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| **Cwestiynau allweddol** | **Cynnwys Gofynnol** |
|---|---|
| | |
| <u>**Effaith y Chwyldro yn Ffrainc a Rhyfeloedd Napoleon**</u><br>**Beth oedd y prif bwysau oedd yn wynebu'r wlad tua 1810?** | *Dylanwad y Cymdeithasau Cyfatebol; effaith y rhyfel ar yr economi; milwyr wedi'u dadfyddino; y Deddfau Ŷd; y galw am ddiwygio'r senedd; effaith diwydiannu ar ffordd o feddwl y radicaliaid* |
| <u>**Dechreuad protestiadau**</u><br>**Pa brotestiadau oedd y rhai mwyaf arwyddocaol yn ystod y cyfnod 1810-1832?** | *Achosion a digwyddiadau'r prif fathau o brotestiadau yn cynnwys: protestiadau'r Ludiaid 1811-1812; Terfysgoedd Spa Fields, 1816; gorymdaith y Blancedwyr, 1817; ffurfio undebau gwleidyddol; terfysgoedd y Mesur Diwygio, 1831* |
| <u>**Ymateb y Llywodraeth:**</u><br>**Sut gwnaeth y llywodraeth ymateb i brotestiadau'r bobl ar yr adeg hon?** | *Cudd-gynhyrfwyr (agent provocateurs); atal habeas corpus, 1817; Cyflafan Peterloo, 1819; y Chwe Deddf; Cynllwyn Cato Street, 1820; Deddf Ddiwygio 1832* |
| <u>**Protest ddiwydiannol yng Nghymru**</u><br>**Pam gwnaeth Gwrthryfel Merthyr ddechrau yn 1831?** | *Achosion tymor hir: amodau gweithio ac amodau byw, y system dryc, rôl y diwydianwyr; achosion tymor byr: dirwasgiad economaidd, radicaliaeth ac undebaeth, galwadau am ddiwygio'r senedd, torri cyflogau; digwyddiadau Gwrthryfel Merthyr* |
| <u>**Twf Siartaeth:**</u><br>**Sut gwnaeth Siartaeth ddatblygu a pham?** | *Y rhesymau dros dwf Siartaeth; rolau Lovett ac O'Connor; Siartaeth y grym corfforol a'r grym moesol; y Cynulliad a'r Deisebau; Siartaeth yng Nghymru: yr orymdaith ar Gasnewydd a digwyddiadau yn Llanidloes, 1839* |
| <u>**Protestio mewn ardaloedd gwledig:**</u><br>**Pa amodau wnaeth arwain at brotestiadau mewn ardaloedd gwledig yn ystod y cyfnod hwn?** | *Achosion Terfysgoedd Swing; gweithgareddau'r terfysgwyr Swing: difrodi eiddo, llythyrau bygythiol; achosion Terfysgoedd Rebeca; gweithgareddau terfysgwyr Rebeca: bygythiadau, ymosodiadau ar dollbyrth a thlotai* |
| <u>**Effaith protestiadau mewn ardaloedd diwydiannol ac mewn ardaloedd gwledig:**</u><br>**Beth oedd canlyniadau'r protestiadau mewn ardaloedd diwydiannol ac mewn ardaloedd gwledig ar ôl 1830?** | *Canlyniadau Gwrthryfel Merthyr: dienyddiad Dic Penderyn; diddymu'r system dryc, cynrychiolaeth yn y senedd; y rhesymau dros fethiant mudiad y Siartwyr; ymateb y llywodraeth i'r protestiadau mewn ardaloedd gwledig: arestio troseddwyr, trawsgludo a deddfwriaeth yn cynnwys Deddf Newydd y Tlodion, 1834, a'r Ddeddf Tyrpegau, 1844* |

## 1C: DIRWASGIAD, RHYFEL AC ADFERIAD, 1930-1951

Yn yr uned hon rhoddir sylw manwl i rai themâu a materion dethol yn ymwneud â hanes dirwasgiad, rhyfel ac adferiad yn ystod y cyfnod 1930-1951. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ystyried prif nodweddion bywyd yn ystod y Dirwasgiad, rhyfel ar y Ffrynt Cartref a Phrydain ar ôl y rhyfel. Dylai dysgwyr ddeall sut yr oedd profiad pobl yng Nghymru ar yr adeg hon yn nodedig ond bod y profiad hwnnw hefyd yn gallu cyfleu'r berthynas ehangach â Phrydain. Dylai dysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o sut y portreadwyd ac y dehonglwyd agweddau ar fywyd yn ystod y cyfnod hwn a dylent hefyd ymchwilio i'r cwestiynau allweddol ym mhob maes testun gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau hanesyddol. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| Cwestiynau allweddol | Cynnwys Gofynnol |
|---|---|
| | |
| **<u>Dechreuad y Dirwasgiad:</u>**<br>**Beth oedd prif achosion y Dirwasgiad?** | *Rhesymau dros ddirywiad diwydiant traddodiadol ym Mhrydain, yn eu plith cystadleuaeth o dramor, marchnadoedd newydd, hen ddulliau; effeithiau Cwymp Wall Street a beth oedd ei effaith ar ddiwydiant ym Mhrydain* |
| **<u>Bywyd yn ystod blynyddoedd y Dirwasgiad:</u>**<br>**Sut roedd pobl yn gallu ymdopi â sialensiau blynyddoedd y Dirwasgiad?** | *Y Dôl a'r Prawf Modd; gorymdeithiau newyn o Jarrow a Rhondda; 'cael deupen llinyn ynghyd' a hunangymorth; ymfudo o Gymru; pwysigrwydd y radio a'r sinema; twf diwydiant ysgafn yn rhannau o Brydain; Deddf yr Ardaloedd Arbennig; Stad Ddiwydiannol Trefforest; gwrthgyferbynnu'r hen ranbarthau diwydiannol ag ardaloedd lle mae mwy o gyflogaeth* |
| **<u>Dechreuad y rhyfel:</u>**<br>**Pa mor effeithiol oedd Prydain wrth baratoi am y rhyfel?** | *Y bygythiad o'r Almaen; polisi dyhuddo Prydain; paratoadau at ryfel: wardeiniaid a llochesau, RADAR, balwnau amddiffyn, gynnau gwrthawyrennol, consgripsiwn a gyrfaoedd neilltuedig* |
| **<u>Bywyd amser rhyfel:</u>**<br>**Sut gwnaeth pobl ym Mhrydain ymdopi â phrofiadau'r rhyfel?** | *Bomio dinasoedd Prydain – Abertawe, Belffast a Glasgow; faciwîs a'u cymunedau newydd yng Nghymru; yr angen am ddogni; cyfraniad menywod at yr ymdrech ryfel;* |
| **<u>Cynnal yr ysbryd:</u>**<br>**Pa mor bwysig oedd cynnal ysbryd *(morale)* pobl yn ystod y rhyfel?** | *Rôl y radio a'r sinema yn ystod y rhyfel; posteri propaganda a sensoriaeth; ymgyrchoedd ac apeliadau fel Dig for Victory a'r Spitfire Fund; pwysigrwydd Churchill fel arweinydd rhyfel* |
| **<u>Bywyd ar ôl rhyfel:</u>**<br>**Pa mor anodd oedd yr amodau yng Nghymru a Lloegr yn 1945?** | *Y sefyllfa economaidd ym Mhrydain yn 1945; dadfyddino; difrod rhyfel; y rhesymau dros fuddugoliaeth y Blaid Lafur yn Etholiad Cyffredinol 1945* |
| **<u>Ailadeiladu'r wlad ar ôl 1945:</u>**<br>**Sut gwnaeth y Llywodraeth Lafur ddelio â phroblemau'r cyfnod?** | *Adroddiad Beveridge; Aneurin Bevan a sefydlu'r GIG; cyfleoedd addysgol yn dilyn Deddf 1944; polisi 'Cartrefi i Bawb'; gwladoli diwydiannau allweddol: glo, trydan a thrafnidiaeth; ymateb i ddiwygiadau'r llywodraethau Llafur ar ôl y rhyfel* |

## 1Ch: CALEDI, CYFOETH AC ANNIDDIGRWYDD, 1951-1979

Yn yr opsiwn hwn rhoddir sylw manwl i rai themâu a materion dethol yn ymwneud â hanes caledi, cyfoeth ac anniddigrwydd rhwng 1951 a 1979. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ystyried y prif ddylanwadau ar fywyd gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ym Mhrydain yn ystod y cyfnod. Dylai dysgwyr ddeall sut yr oedd profiad pobl yng Nghymru ar yr adeg hon yn nodedig ond bod y profiad hwnnw hefyd yn gallu cyfleu'r berthynas ehangach â Phrydain. Dylai dysgwyr ddatblygu ymwybyddiaeth o sut y portreadwyd ac y dehonglwyd agweddau ar fywyd yn ystod y cyfnod hwn a dylent hefyd ymchwilio i'r cwestiynau allweddol ym mhob maes testun gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau hanesyddol. Lle bo'n briodol, byddant yn cynnwys deunydd o ffynonellau o Gymru. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| Cwestiynau allweddol | Cynnwys Gofynnol |
|---|---|
| <u>**Prydain ar ddechrau'r 1950au:**</u><br>**Beth oedd y prif faterion oedd yn wynebu pobl Prydain ar ddechrau'r 1950au?** | *Caledi a dogni; problemau tai; dyled genedlaethol; cost y gyllideb les; dirywiad diwydiannol; maint hyn ar ranbarthau daearyddol y wlad* |
| <u>**Diwedd caledi:**</u><br>**Pa ffactorau wnaeth gyfrannu at yr adferiad economaidd yn yr1950au a'r 1960au?** | *Cynllunio trefol a threfi newydd fel Cwmbrân a'r Drenewydd; Macmillan a'i slogan, 'never had it so good'; Wilson - 'white heat of technology'; buddsoddi mewn ffyrdd gan gynnwys yr M4 a Phont Hafren; bwyell Beeching a'i effeithiau ar Gymru; datblygiad atomfeydd niwclear fel Trawsfynydd a'r Wylfa* |
| <u>**Problemau gwleidyddol ac economaidd:**</u><br>**Beth oedd y prif faterion gwleidyddol ac economaidd yng Nghymru yn yr1960au a'r 1970au?** | *Trychineb Aberfan yn 1966 a'i effeithiau; datblygiadau yng ngwleidyddiaeth Cymru ar ôl 1962: Tryweryn 1965; Isetholiad Caerfyrddin 1966; yr Arwisgo yn 1969; aflonyddwch diwydiannol yng Nghymru yn yr 1970au; agweddau tuag at ddatganoli yng Nghymru erbyn 1979* |
| <u>**Y newid ym mywydau menywod:**</u><br>**I ba raddau y newidiodd bywyd menywod yn y cyfnod hwn?** | *Dyfeisiau arbed llafur; newidiadau ym myd addysg a chyflogaeth; ymgyrchoedd dros hawliau a rhyddid menywod; effaith y bilsen; deddfwriaeth cyfle cyfartal* |
| <u>**Adloniant poblogaidd**</u><br>**Beth oedd y prif newidiadau mewn adloniant yn y cyfnod hwn?** | *Y newid mewn arddulliau cerddorol; ffyrdd o wrando ar gerddoriaeth; effaith teledu; dylanwad diwylliant America; y cysylltiadau rhwng adloniant a ffasiwn; gwahanol ddiwylliannau ieuenctid yn dod i'r amlwg* |
| <u>**Y newid mewn agweddau tuag at awdurdod:**</u><br>**Sut newidiodd agweddau tuag at awdurdod yn yr 1950au a'r 1960au?** | *Y gymdeithas oddefol; cyfreithloni cyfunrhywiaeth; agweddau tuag at gyffuriau; diddymu'r gosb eithaf; Sgandal Profumo; dylanwad yr Ymgyrch Ddiarfogi Niwclear (CND); dechreuadau Cymdeithas yr Iaith; y cynnydd mewn addysg uwchradd a thrwy gyfrwng y Gymraeg* |
| <u>**Mewnfudo:**</u><br>**Sut effeithiodd mewnfudo ar y gymdeithas ym Mhrydain yn ystod y cyfnod hwn?** | *Rhesymau dros fudo i Brydain; mewnfudo o'r Caribî: y Windrush; terfysgoedd hiliol a Notting Hill 1958; rôl Enoch Powell; deddfwriaeth cysylltiadau hiliol yn yr 1970au; cyfraniad mudwyr at fywyd yng nghymunedau Prydain* |

# 2.2 Uned 2 Astudiaethau Manwl – Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop / y byd

## 2A: RWSIA MEWN CYFNOD O NEWID, 1905-1924

Yn yr opsiwn hwn rhoddir sylw manwl i rai themâu a materion dethol sy'n ymwneud â hanes Rwsia rhwng 1905 a 1924. Bydd yn ofynnol i'r ymgeiswyr ystyried achosion ac effeithiau'r Chwyldroadau yn 1917, y Rhyfel Cartref yn Rwsia ac effaith datblygiad y wladwriaeth Gomiwnyddol ar Rwsia. Dylai ymgeiswyr ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cyfnod trwy esbonio a dadansoddi cysyniadau allweddol fel achosiaeth, newid a pharhad ac arwyddocâd a dadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| **Cwestiynau allweddol** | **Cynnwys Gofynnol** |
|---|---|
| | |
| **<u>Rwsia hyd at 1914:</u>**<br>**Beth oedd y prif broblemau oedd yn wynebu Rwsia rhwng 1905 a 1914?** | *Chwyldro 1905: achosion, digwyddiadau, canlyniadau; twf y gwrthbleidiau; beirniadu awtocratiaeth ac amhoblogrwydd cynyddol y frenhiniaeth; diwygiadau Stolypin; dylanwad Rasputin* |
| **<u>Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf, 1914-1917:</u>**<br>**Sut gwnaeth y Rhyfel Byd Cyntaf effeithio ar Rwsia?** | *Dechreuad y rhyfel; llwyddiant y fyddin ar y dechrau a'i methiannau'n nes ymlaen; arweinyddiaeth milwrol anghymwys, rôl y teulu brenhinol; caledi cynyddol gartref; twf y gwrthwynebiad* |
| **<u>Chwyldroadau 1917:</u>**<br>**Beth oedd prif nodweddion a chanlyniadau chwyldroadau 1917?** | *Y prif ddigwyddiadau yn Chwefror 1917; y Llywodraeth Dros Dro ac ymddiorseddiad y Tsar; y prif ddigwyddiadau rhwng Chwefror a Hydref 1917; Chwyldro Hydref; rolau Lenin a Trotsky; canlyniadau uniongyrchol chwyldro* |
| **<u>Y rhyfel cartref, 1918-1921:</u>**<br>**Beth oedd y prif ddatblygiadau yn Rwsia yn ystod y rhyfel cartref?** | *Achosion y Rhyfel Cartref; ymyriad grymoedd tramor; rôl y Cadfridogion Gwyn; rôl y Fyddin Goch; llofruddio'r teulu brenhinol; rhesymau dros fuddugoliaeth y Cochion* |
| **<u>Syniadau Lenin:</u>**<br>**Pam gwnaeth Lenin gyflwyno'r Polisi Economaidd Newydd a pha mor llwyddiannus oedd ef?** | *Cyflwr Rwsia yn 1921; effeithiau Comiwnyddiaeth Ryfel; miwtini'r Kronstadt; prif nodweddion y Polisi Economaidd Newydd; ei effaith ar Rwsia* |
| **<u>Bywyd yn Rwsia ar ddechrau cyfnod y Comiwnyddion:</u>**<br>**A wnaeth Lenin lwyddo i sefydlu gwladwriaeth Gomiwnyddol yn Rwsia?** | *Trefniadaeth Plaid Gomiwnyddol yr Undeb Sofietaidd (CPSU); y Comintern; rôl y Cheka a'r Arswyd Coch; rheolaeth y llywodraeth dros agweddau allweddol ar yr economi: diwydiant, bancio, cludiant, masnach dramor; newidiadau i fenywod; addysg, diwylliant a chrefydd; propaganda a sensoriaeth* |
| **<u>Pwysigrwydd Lenin:</u>**<br>**Beth oedd cynhysgaeth Lenin i Rwsia?** | *Y dirywiad yn iechyd a dylanwad Lenin; olynwyr posibl: Trotsky a Stalin; cynllwynio gan Stalin i gymryd yr awenau; cyfraniad Lenin fel arweinydd plaid; ei fri a'i bendantrwydd* |

## 2B: UDA: GWLAD GWAHANIAETHAU, 1910-1929

Yn yr opsiwn hwn rhoddir sylw manwl i rai themâu a materion dethol sy'n ymwneud â hanes UDA rhwng 1910 a 1929. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ystyried y prif broblemau a sialensiau oedd yn wynebu'r gymdeithas yn America yn ystod y cyfnod, y prif broblemau economaidd a datblygiad diwylliant a chymdeithas America. Dylai ymgeiswyr ddatblygu ymwybyddiaeth o sut y portreadwyd ac y dehonglwyd agweddau ar fywyd yn UDA yn y cyfnod hwn a dylent hefyd ymchwilio i'r cwestiynau allweddol ym mhob maes testun gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau hanesyddol. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| Cwestiynau allweddol | Cynnwys Gofynnol |
|---|---|
| **Mewnfudo:**<br>**Pam daeth mewnfudo'n bwnc mor bwysig yn y gymdeithas yn America?** | *Polisi'r Drws Agored; galwadau am gyfyngu; deddfwriaeth y llywodraeth; twf senoffobia; digwyddiadau a gysylltwyd ag anarchwyr: y Bygythiad Coch, Cyrchoedd Palmer, achos Sacco a Vanzetti* |
| **Crefydd a hil:**<br>**Ai gwlad o anoddefgarwch crefyddol a hiliol oedd America yn ystod y cyfnod hwn?** | *Ffwndamentaliaeth grefyddol ac Ardal y Beibl; y Prawf Mwnci; y driniaeth a roddwyd i Frodorion America; arwahanu, deddfau Jim Crow a'r KKK; ymateb pobl ddu :mudo, yr NAACP a'r UNIA* |
| **Trosedd a llygredd:**<br>**Ai degawd o droseddu cyfundrefnol a llygredd oedd yr 1920au?** | *Rhesymau dros gyflwyno gwaharddiad, bywyd yn ystod y cyfnod hwnnw a gorfodi'r gwaharddiad; trosedd cyfundrefnol - Al Capone, Cyflafan Dydd Sant Ffolant; llygredd: Harding, yr Ohio Gang a sgandal y Tea Pot Dome* |
| **Ffyniant economaidd:**<br>**Beth oedd achosion y ffyniant economaidd wnaeth ddigwydd yn ystod yr 1920au?** | *Safle economaidd America yn 1910 - asedau ac adnoddau naturiol; effaith economaidd y Rhyfel Byd Cyntaf; hur bwrcas; trydaneiddio; masgynhyrchu; laissez-faire, unigolyddiaeth a diffynnaeth* |
| **Diwedd ffyniant:**<br>**Pa ffactorau wnaeth arwain at ddiwedd y ffyniant yn 1929?** | *Gorgynhyrchu; cwymp mewn galw gan ddefnyddwyr; ffyniant yng ngwerthoedd tir ac eiddo; gor hapfasnachu; Cwymp Wall Street: gwerthu mewn panig, Dydd Iau Du, cwymp y farchnad* |
| **Adloniant poblogaidd:**<br>**Sut gwnaeth adloniant poblogaidd ddatblygu yn ystod y cyfnod hwn?** | *Dyfodiad y ffilmiau di-sain; poblogrwydd y sinema a sêr y ffilmiau; dyfodiad y ffilmiau sain (talkies)) newidiadau mewn cerddoriaeth boblogaidd gan gynnwys jazz; effaith y radio a'r gramoffon; dawnsio a diwylliant y clybiau yfed (speakeasy)* |
| **Rôl menywod;**<br>**Sut gwnaeth ffordd o fyw a statws menywod newid yn ystod y cyfnod hwn?** | *Rôl menywod yn y blynyddoedd cyn y rhyfel; effaith y Rhyfel Byd Cyntaf; y newid mewn agweddau gwleidyddol; dylanwad diwylliant Jazz; ffordd o fyw'r 'flappers' a ffeministiaeth; gwrthwynebiad i ffordd o fyw'r flappers* |

## 2C: YR ALMAEN MEWN CYFNOD O NEWID, 1919-1939

Yn yr opsiwn hwn rhoddir sylw manwl i rai themâu a materion dethol yn ymwneud â hanes yr Almaen yn y cyfnod 1919-1939. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ystyried effaith y Rhyfel Byd Cyntaf, adferiad Gweriniaeth Weimar, y ffactorau wnaeth arwain at esgyniad y Natsïaid i rym ac effaith cyfundrefn y Natsïaid ar fywydau pobl yr Almaen. Dylai ymgeiswyr ddatblygu ymwybyddiaeth o sut y portreadwyd ac y dehonglwyd agweddau ar fywyd yn yr Almaen yn y cyfnod hwn a dylent hefyd ymchwilio i'r cwestiynau allweddol ym mhob maes testun gan ddefnyddio amrediad o ffynonellau hanesyddol. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| **Cwestiynau allweddol** | **Cynnwys Gofynnol** |
|---|---|
| **Effaith y Rhyfel Byd Cyntaf**<br>**Pa sialensiau wnaeth wynebu Gweriniaeth Weimar rhwng 1919 a 1923?** | *Effaith Cytundeb Versailles; gwendidau llywodraeth Weimar; ansefydlogrwydd gwleidyddol - Putsch y Spartacistiaid, Putsch Kapp a Putsch Munchen; gorchwyddiant; digwyddiadau yn y Ruhr 1923* |
| **Adferiad Weimar**<br>**Pam cafodd blynyddoedd Stresemann eu hystyried yn 'oes aur'?** | *Adferiad ar ôl gorchwyddiant; Cynlluniau Dawes ac Young; Pact Locarno; cydberthynas â Chynghrair y Cenhedloedd; buddsoddiad yr UD; datblygiadau cymdeithasol a gwleidyddol* |
| **Diwedd Gweriniaeth Weimar**<br>**Sut a pham gwnaeth Gweriniaeth Weimar ddymchwel rhwng 1929 a 1933?** | *Effaith cymdeithasol a gwleidyddol y Dirwasgiad ar Weriniaeth Weimar; y rhesymau dros y twf yn y gefnogaeth i'r Natsïaid; rôl yr SA; propaganda; eithafiaeth a chynllwynio gwleidyddol, 1929-1932* |
| **Atgyfnerthu grym**<br>**Sut gwnaeth y Natsïaid atgyfnerthu eu grym rhwng 1933 a 1934?** | *Hitler yn Ganghellor; Tân y Reichstag; etholiad a Deddf Alluogi 1933; undebau llafur a phleidiau gwleidyddol; Noson y Cyllyll Hirion; Hitler yn dod yn Fuhrer* |
| **Polisi economaidd, cymdeithasol a hiliol y Natsïaid**<br>**Sut gwnaeth polisi economaidd, cymdeithasol a hiliol y Natsïaid effeithio ar fywyd yn yr Almaen?** | *Lleihau diweithdra; Polisi'r Natsïaid tuag at weithwyr; menywod a'r Tair K; rheoli addysg; rôl Mudiad Ieuenctid Hitler; agweddau tuag at grefydd; y driniaeth a roddwyd i'r Iddewon 1933-1939* |
| **Arswyd a pherswâd**<br>**Pa ddulliau wnaeth y Natsïaid eu defnyddio i reoli'r Almaen?** | *Y defnydd o'r SS a'r Gestapo; rheolaeth dros y system gyfreithiol; Goebbels a phropaganda; y defnydd o ralïau, y radio a'r sinema; sensoriaeth o bapurau newyddion a'r celfyddydau* |
| **Polisi tramor Hitler**<br>**Pa ffactorau wnaeth arwain at ddechreuad y rhyfel yn 1939?** | *Nodau polisi tramor Hitler; ailarfogi a chonsgripsiwn; y Rheindir 1936; yr Anschluss 1938; y Sudetenland 1938; Pact y Natsïaid a'r Sofietiaid 1939* |

## 2Ch: NEWIDIADAU YN NE AFFRICA, 1948-1994

Yn yr opsiwn hwn rhoddir sylw manwl i rai themâu a materion dethol yn ymwneud â hanes De Affrica rhwng 1948 a 1994. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ystyried sefydlu'r wladwriaeth apartheid, twf y gwrthwynebiad i apartheid a dod â'r drefn apartheid i ben yn y pen draw. Dylai ymgeiswyr ddatblygu eu dealltwriaeth o Dde Affrica yn y cyfnod hwn trwy esbonio a dadansoddi cysyniadau allweddol fel achosiaeth, newid a pharhad ac arwyddocâd a dadansoddi a gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| **Cwestiynau allweddol** | **Cynnwys Gofynnol** |
|---|---|
| **Y system apartheid:**<br>**Pam cafodd y drefn apartheid ei sefydlu?** | *De Affrica yn 1948; canlyniadau etholiad 1948; y prif ddeddfau apartheid, 1949-1956; newidiadau o dan lywodraeth Verwoerd 1958-1966; creu 'mamwledydd hunanlywodraethol' a Bantwstanau* |
| **Effeithiau'r system apartheid:**<br>**Sut effeithiodd y drefn apartheid ar fywyd a gwaith?** | *Addysg a chyflogaeth; arwahanu yn y gymdeithas; gorfodi mudo i'r trefgorddau a bywyd yn y trefgorddau newydd; cynnydd ym mhwerau'r heddlu: gorchmynion gwahardd, carcharu, arteithio, sensoriaeth* |
| **Gwrthwynebu apartheid yn Ne Affrica:**<br>**Beth oedd y prif ddulliau oedd yn cael eu defnyddio i wrthwynebu apartheid?** | *Gwaith yr ANC; yr Ymgyrch Herfeiddio; y Siarter Rhyddid; y Profion Brad; Sharpeville a'i ganlyniadau; gweithredoedd yr ANC a PAC (Pan African Congress); Prawf Rivonia; Soweto a chanlyniadau hynny* |
| **Rôl unigolion allweddol:**<br>**Beth oedd rôl a dylanwad unigolion allweddol yn yr ymgyrch yn erbyn apartheid?** | *Rôl gweithredwyr gwleidyddol gan gynnwys Mandela, Sisulu, Tambo, Sobukwe, Biko, Buthelezi; rôl menywod gan gynnwys Lilian Ngoyi, Helen Suzman a Winnie Mandela; rôl arweinwyr yr eglwys gan gynnwys Huddleston a Tutu* |
| **Gwrthwynebiad Rhyngwladol:**<br>**Pa mor effeithiol oedd gwrthwynebiad rhyngwladol i apartheid?** | *Cyfundrefn Undod Affrica (OAU); Maniffesto Lusaka; SWAPO; Cenhedloedd Unedig; De Affrica yn gadael y Gymanwlad; pwysau rhyngwladol: sancsiynau economaidd a boicotio, y Mudiad Gwrth-Apartheid* |
| **Newidiadau i'r system apartheid:**<br>**Pam gwnaeth y drefn apartheid newid yn ystod cyfnodau Botha a de Klerk yn arlywydd?** | *Botha a'r 'Realaeth Newydd'; newidiadau i'r cyfansoddiad 1983-84; llacio rhai o'r cyfreithiau apartheid; gwrthwynebiad ymysg y duon yn y trefgorddau, y Ffrynt Democrataidd Unedig yn dod i'r amlwg; trywydd newydd de Klerk* |
| **Diwedd y system apartheid:**<br>**Pam a pha bryd gwnaeth y system apartheid ddod i ben?** | *CODESA; cytundeb cyfansoddiadol Tachwedd 1993; Etholiad Cyffredinol Ebrill 1994; 'Gwirionedd a Chymodi'; gwella cydberthynas y gwledydd* |

# 2.3 Uned 3 Astudiaethau Thematig o bersbectif hanesyddol eang

### 3A: NEWIDIADAU YM MAES TROSEDD A CHOSB, tua1500 hyd heddiw

Yn yr opsiwn hwn canolbwyntir fesul thema ar y prif dueddiadau yn hanes trosedd a chosb ym Mhrydain o tua 1500 hyd heddiw. Dim ond yn yr achosion hynny lle mae ei ddylanwad yn sylfaenol y nodir cynnwys tramor. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ystyried yr achosion a'r mathau o drosedd, gorfodi'r gyfraith, ymladd trosedd a'i chosbi a sut mae agweddau tuag at drosedd a chosb wedi newid dros amser. Bydd yn ofynnol hefyd i ddysgwyr ystyried y prif bersbectifau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a gyfrannodd at ddatblygiad trosedd a chosb ill dau o tua 1500 hyd heddiw. Yn yr opsiwn hwn, dylai canolfannau sicrhau eu bod yn canolbwyntio, lle y bo’n briodol, ar faterion newid, parhad, arwyddocâd a throbwyntiau. Yn yr opsiwn hwn, dylid pwysleisio effaith y newid mewn trosedd a chosb ar Gymru yn ei gyd-destun ehangach. Yn rhan o'r opsiwn hwn bydd ymgeiswyr yn astudio safle hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r thema hon. Mae’r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o’r cyfnod y mae’n rhaid eu hastudio.

| Cwestiynau allweddol | Cynnwys Gofynnol |
|---|---|
| **Achosion trosedd:**<br>**Beth oedd prif achosion trosedd dros amser?** | *Twf pwysau economaidd yng nghyfnod y Tuduriaid; effaith newid crefyddol yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg; pwysau diwydiannu a threfoli yn y ddeunawfed ganrif a'r unfed ganrif ar bymtheg; pwysau'r ugeinfed ganrif yn eu plith newidiadau technolegol; twf terfysgaeth yn yr unfed ganrif ar hugain* |
| **Natur troseddau:**<br>**Sut mae natur gweithgaredd troseddol wedi bod yn wahanol ac wedi newid dros amser?** | *Crwydraeth a heresi yn yr unfed ganrif ar bymtheg; twf smyglo a lladrata pen-ffordd yn y ddeunawfed ganrif; troseddau sy'n cael eu cysylltu â threfoli yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; anhrefn diwydiannol ac amaethyddol yn ystod y Chwyldro Diwydiannol; twf troseddu yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain gyda datblygiad y car, y cyfrifiadur, technoleg a therfysgaeth* |
| **Gorfodi cyfraith a threfn:**<br>**Sut mae'r cyfrifoldeb am orfodi cyfraith a threfn wedi newid dros amser?** | *Twf cyfrifoldebau dinesig a phlwyf yn yr unfed ganrif ar bymtheg; cysyniad a datblygiad lluoedd heddlu trefnedig erbyn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; y newid yn natur a phwrpas plismona yn yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain* |
| **Dulliau o ymladd trosedd:**<br>**Pa mor effeithiol mae dulliau o ymladd trosedd wedi bod dros amser?** | *Rôl ac effeithiolrwydd Ynadon Heddwch, cwnstabliaid a gwylwyr cyfnod y Tuduriaid; sefydlu a dylanwad ceidwaid Bow Street; Peel a sefydlu'r Heddlu Metropolitan yn 1829; ehangu lluoedd yr heddlu yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; datblygiadau mewn plismona yn yr ugeinfed ganrif: swyddogion heddlu benywaidd, trafnidiaeth, cyfathrebu, arbenigo a phlismona cymunedol* |

| | |
|---|---|
| **<u>Agweddau tuag at gosbi:</u>**<br>**Pam mae agweddau at gosbi wedi newid dros amser?** | *Cosb ac ataliaeth fel pwrpasau cosbi dros amser; pwrpas cosbi yn gyhoeddus dros amser; y defnydd o alltudiaeth yn y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; y defnydd o garchardai i gosbi a diwygio yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; newidiadau mewn agweddau tuag at gosbi yn yr ugeinfed ganrif: delio â throseddwyr ifanc, diddymu'r ddedfryd marwolaeth; ymdrechion i ailsefydlu troseddwyr a gwneud iawn* |
| **<u>Dulliau cosbi:</u>**<br>**Sut mae dulliau cosbi wedi newid dros amser?** | *Y driniaeth a roddwyd i grwydriaid yn oes y Tuduriaid; y defnydd o gosbi cyhoeddus hyd y bedwaredd ganrif ar bymtheg: cyffion, rhigod a dienyddiadau; y defnydd o drawsgludo o'r 1770au hyd yr 1860au; yr angen am ddiwygio carchardai: Howard, Paul a Fry; carchardai newydd ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg: y systemau ar wahân a thawel; dulliau eraill o ddelio â charcharorion yn yr ugeinfed ganrif: borstalau, carchardai agored, prawf a gwasanaeth cymunedol* |
| **Astudiaeth o safle hanesyddol sy'n gysylltiedig â throsedd a chosb** | *Mae astudiaeth o safle hanesyddol ymhlyg yng nghynnwys gofynnol yr astudiaeth thematig hon Yn rhan o'r cynnwys gofynnol uchod, dylai canolfannau astudio'r safle hanesyddol a enwebir isod:* |
| **Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol, dylai dysgwyr ystyried y canlynol:**<br>• nodweddion allweddol y safle hanesyddol<br>• arwyddocâd y safle hanesyddol ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol<br>• pa mor berthnasol yw'r safle hanesyddol i ddatblygiad trosedd a chosb dros amser<br>• sut mae'r safle hanesyddol yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o newidiadau yn hanes trosedd a chosb | ***'China': twf troseddu ym Merthyr ddiwydiannol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg***<br><br>*Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol hwn dylai canolfannau ganolbwyntio ar y canlynol:*<br>• *amodau byw yn nhref Merthyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg*<br>• *mwy o gyfleoedd i droseddu yn nhref Merthyr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg*<br>• *effaith twf tref Merthyr ar newidiadau ym maes plismona yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg* |

## YMHELAETHU AR Y CYNNWYS I WELLA'R YMDRINIAETH O BERSBECTIF CYMREIG

Wrth ymdrin â'r themâu ehangach sy'n gysylltiedig â datblygiad trosedd a chosb o tua 1500 hyd heddiw, cynghorir athrawon i gynnwys enghreifftiau perthnasol a phriodol wrth addysgu sy'n cyfleu'r persbectif Cymreig ac effaith y datblygiadau hyn ar Gymru. **Noder mai awgrymiadau yn unig yw'r enghreifftiau hyn. Anogir athrawon i ddefnyddio enghreifftiau o'r rhestr hon ynghyd ag unrhyw enghreifftiau lleol priodol eraill:**

| THEMA GYSYLLTIOL | CANOLBWYNT Y CYNNWYS | PERSBECTIF CYMREIG |
|---|---|---|
| **Achosion a natur troseddau** | Heresi a brad yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg | Tynged Rawlins White, Richard Gwyn a John Penry |
| | Smyglo yn y ddeunawfed ganrif | Maint y smyglo yng ngorllewin Cymru – Gŵyr (Brandy Cove), Sir Benfro (Ogof Whisky) a Bae Ceredigion |
| | Troseddau sy'n cael eu cysylltu â threfoli yn yr unfed ganrif ar bymtheg | Slymiau mewn trefi fel 'China' ym Merthyr |
| | Protestiadau diwydiannol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Protestiadau'r Siartwyr yng Nghasnewydd a Llanidloes, 1839 |
| | Protestio mewn ardaloedd gwledig yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Terfysgoedd Rebeca |
| | Gweithredu uniongyrchol anghyfreithlon yn ystod yr ugeinfed ganrif | Y bomio adeg yr Arwisgo, 1968-1969; gweithgareddau Meibion Glyndŵr yn yr 1980au a'r 1990au |
| **Ymladd yn erbyn trosedd a gorfodi cyfraith a threfn** | Cyfraith Cymru ar ddechrau'r unfed ganrif ar bymtheg | Y defnydd o Gyfraith Hywel Dda hyd 1540 |
| | Ynadon Heddwch, cwnstabliaid a gwylwyr o ganol yr unfed ganrif ar bymtheg hyd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Cyflwyno gorfodi cyfraith Loegr yng Nghymru yn y Deddfau Uno |
| | Cynnydd ac ehangu yn lluoedd yr heddlu ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Sefydlu lluoedd heddlu trefol a sirol yng Nghymru ar ôl Deddf Heddlu 1839 |
| | Newidiadau mewn plismona yn yr ugeinfed ganrif | Cyfuno lluoedd heddlu yng Nghymru ar ôl 1969 i ffurfio unedau mwy |
| **Dulliau cosbi** | Dulliau traddodiadol o gosbi yn y gymuned dros amser | Ceffyl pren (gwledig) a Scotch Cattle (diwydiannol) – ill dau wedi'u defnyddio hyd yr 1840au |
| | Y defnydd o gosbi cyhoeddus hyd diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Safleoedd dienyddio cyhoeddus ledled Cymru: Biwmares, Caernarfon, Abertawe, Caerfyrddin, Caerdydd; y cofnod diwethaf o ddefnyddio cyffion yng Nghastell Newydd Emlyn yn 1872 |
| | Y defnydd o drawsgludo o'r 1770au hyd yr 1860au | Dim ond 1.2% o'r rhai a drawsgludwyd oedd yn dod o Gymru; Unigolion nodedig a drawsgludwyd oedd Lewis Lewis, John Frost a Therfysgwyr Rebeca |
| | Carchardai a diwygio'r carchardai ar ôl yr 1770au | Ymweliadau John Howard â charchardai Caernarfon a Chastell Abertawe yn yr 1770au; adeiladu carchardai newydd oes Fictoria ym Miwmares (1830), Caerdydd (1832), Abertawe (1861); adeiladu'r carchar 'math Pentonville' cyntaf yng Nghymru yn Rhuthun yn 1878 |
| | Mathau newydd o garchardai yng Nghymru yn yr ugeinfed ganrif: | Carchar agored Prescoed (1939); diffyg canolfannau cadw pobl ifanc yng Nghymru |

## 3B: NEWIDIADAU YM MAES IECHYD A MEDDYGAETH, tua1340 hyd heddiw

Yn yr opsiwn hwn canolbwyntir fesul thema ar y prif dueddiadau yn hanes iechyd a meddygaeth ym Mhrydain o tua 1340 hyd heddiw. Dim ond yn yr achosion hynny lle mae ei ddylanwad yn sylfaenol y nodir cynnwys tramor. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ystyried achosion, triniaeth a dulliau o atal afiechydon a chlefydau, datblygiadau ym maes gwybodaeth feddygol, datblygiadau yng ngofal cleifion a datblygiadau yn iechyd a lles y cyhoedd dros amser. Bydd yn ofynnol hefyd i ddysgwyr ystyried y prif bersbectifau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a gyfrannodd at ddatblygiad iechyd a meddygaeth o tua 1340 hyd heddiw. Yn yr opsiwn hwn, dylai canolfannau sicrhau eu bod yn canolbwyntio, lle y bo'n briodol, ar faterion newid, parhad, arwyddocâd a throbwyntiau. Yn yr opsiwn hwn, dylid pwysleisio effaith y newid mewn iechyd a meddygaeth ar Gymru yn ei gyd-destun hanesyddol ehangach. Yn rhan o'r opsiwn hwn bydd ymgeiswyr yn astudio safle hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r thema hon. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| **Cwestiynau allweddol** | **Cynnwys Gofynnol** |
|---|---|
| **<u>Achosion o afiechyd a chlefydau:</u>**<br>**Beth oedd prif achosion afiechyd a chlefydau dros amser?** | *Amodau byw yn yr oesoedd canol a'r oes fodern gynnar gan gyfeirio at y Pla Du a'r Pla Mawr: effeithiau diwydiannu: colera a theiffoid; lledaeniad clefydau bacteriol a firaol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg a'r ugeinfed ganrif: Twbercwlosis a'r Ffliw* |
| **<u>Ymdrechion i atal afiechydon a chlefydau:</u>**<br>**Pa mor effeithiol oedd ymdrechion i atal afiechydon a chlefydau dros amser?** | *Dulliau cynnar ar gyfer atal clefydau gan gyfeirio at y Pla Du: alcemi a meddygon canoloesol; defnyddio gwyddoniaeth i atal clefydau ar ddiwedd y ddeunawfed ganrif a dechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg: gwaith Edward Jenner a brechu; dylanwad a lledaenu brechu ers 1800; darganfod gwrthgyrff a datblygiadau ym maes bacterioleg* |
| **<u>Ymdrechion i drin a gwella afiechydon a chlefydau</u>**<br>**Sut mae ymdrechion i drin afiechydon a chlefydau wedi newid dros amser?** | *Triniaethau traddodiadol oedd yn gyffredin yn yr oesoedd canol: barbwr-llawfeddygon, defnydd o elenod, meddyginiaethau llysieuol; Joseph Lister a'r defnydd o antiseptig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg; James Simpson a datblygiad anaesthetig yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg; datblygiadau'r ugeinfed ganrif: Marie Curie a datblygiad pelydriad; rolau Fleming, Forey a Chain yn ymwneud â gwrthfiotigau; Barnard a llawfeddygaeth trawsblannu; datblygiadau modern ym maes trin canser a llawdriniaeth* |
| **<u>Datblygiadau ym maes gwybodaeth feddygol:</u>**<br>**Faint o gynnydd a wnaed ym maes gwybodaeth feddygol dros amser?** | *Syniadau meddygol yn yr oesoedd canol: sêr-ddewiniaeth a damcaniaeth y pedwar gwlybwr; gwaith meddygol Vesalius, Pare a Harvey yn yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg; datblygiadau ym maes gwybodaeth feddygol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg: gwell gwybodaeth am y ddamcaniaeth germau: Pasteur a Koch; datblygiad technegau sganio yn ystod yr ugeinfed ganrif: pelydrau X, uwchsain a sganiau MRI; darganfod DNA ac ymchwil genetig ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif* |
| ***Datblygiadau yng ngofal cleifion***<br>**Sut mae gofal cleifion wedi gwella dros amser?** | *Rôl yr eglwys a'r mynachlogydd o'r oesoedd canol hyd canol yr unfed ganrif ar bymtheg; rôl elusennau gwirfoddol ac ysbytai gwaddoledig hyd ddiwedd y ddeunawfed ganrif; dylanwad Florence Nightingale a Betsi Cadwaladr ar nyrsio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; Aneurin Bevan a sefydlu'r GIG ar ôl yr Ail Ryfel Byd; pwysau ar y GIG hyd heddiw* |

| | |
|---|---|
| **<u>Datblygiadau yn iechyd a lles y cyhoedd:</u>**<br>**Pa mor effeithiol oedd ymdrechion i wella iechyd a lles y cyhoedd dros amser?** | *Safonau iechyd a hylendid y cyhoedd o'r bedwaredd ganrif ar ddeg tan y ddeunawfed ganrif; effaith diwydiannu ar iechyd y cyhoedd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; gwaith Edwin Chadwick yn arwain at welliannau ym maes iechyd cyhoeddus yn ystod oes Fictoria; ymdrechion i wella tai a lleihau llygredd yn yr ugeinfed ganrif ymdrechion i wella iechyd a lles y cyhoedd yn ystod yr unfed ganrif ar hugain: ymgyrchoedd, ymgyrchoedd ffitrwydd, bwyta'n iach* |
| **Astudiaeth o safle hanesyddol sy'n gysylltiedig ag iechyd a meddygaeth** | *Mae astudiaeth o safle hanesyddol ymhlyg yng nghynnwys gofynnol yr astudiaeth thematig hon Yn rhan o'r cynnwys gofynnol uchod, dylai canolfannau astudio'r safle hanesyddol a enwebir isod:* |
| **Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol, dylai dysgwyr ystyried y canlynol:**<br>• nodweddion allweddol y safle hanesyddol<br>• arwyddocâd y safle hanesyddol ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol<br>• pa mor berthnasol yw'r safle hanesyddol i ddatblygiad iechyd a meddygaeth dros amser<br>• sut mae'r safle hanesyddol yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o hanes iechyd a meddygaeth | ***Tref Caerdydd (Urban Cardiff) yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg;***<br><br>*Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol hwn dylai canolfannau ganolbwyntio ar y canlynol:*<br>• *amodau byw yng Nghaerdydd yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg*<br>• *achosion colera a theiffoid yn cychwyn yng Nghaerdydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg*<br>• *ymdrechion i wella iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg*<br>• *effeithiolrwydd yr ymdrechion i wella iechyd y cyhoedd yng Nghaerdydd yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg* |

## YMHELAETHU AR Y CYNNWYS I WELLA'R YMDRINIAETH O BERSBECTIF CYMREIG

Wrth ymdrin â'r themâu ehangach sy'n gysylltiedig â datblygiad iechyd a meddygaeth o tua 1340 hyd heddiw, cynghorir athrawon i gynnwys enghreifftiau perthnasol a phriodol wrth addysgu sy'n cyfleu'r persbectif Cymreig ac effaith y datblygiadau hyn ar Gymru. **Noder mai awgrymiadau yn unig yw'r enghreifftiau hyn. Anogir athrawon i ddefnyddio enghreifftiau o'r rhestr hon ynghyd ag unrhyw enghreifftiau lleol priodol eraill:**

| THEMA GYSYLLTIOL | CANOLBWYNT Y CYNNWYS | PERSBECTIF CYMREIG |
|---|---|---|
| **Achosion o afiechyd a chlefydau** | Amodau byw yn yr oesoedd canol gan gyfeirio at y Pla Du | Amodau byw mewn pentrefi canoloesol yng Nghymru (e.e. Cosmeston); y Pla Du yng Nghil-y-Coed, Caerfyrddin, Hwlffordd a Threfynnon |
| | Effeithiau diwydiannu: colera a theiffoid | Epidemigau colera ym Merthyr Tudful a Chaerdydd, 1848/49 |
| **Gwybodaeth feddygol, atal a thrin afiechydon a chlefydau** | Datblygiadau ym maes gwybodaeth feddygol yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Gwaith meddyg esgyrn (e.e. ar Ynys Môn a Rocyn Jones yn Rhymni) a chysylltiadau â dechreuad orthopaedeg |
| | Gwell gwybodaeth am y ddamcaniaeth germau | Rôl JW Power, swyddog meddygol iechyd Glyn Ebwy yn sefydlu cyrsiau ar facterioleg e.e. Caerdydd, 1898 |
| | Darganfod DNA ac ymchwil genetig ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif | Gwaith Martin Evans ar gelloedd bonyn |
| | Triniaethau traddodiadol oedd yn gyffredin yn yr oesoedd canol | Lle meddygwr y tŷ yng Nghyfraith Hywel Dda, gyda chyfraddau talu am driniaethau; ffynhonnau iachaol (e.e. Ffynnon Gwenffrewi, Treffynnon) |
| | Meddyginiaethau llysieuol traddodiadol | Meddygon Myddfai |
| | Triniaethau traddodiadol | Dynion Hysbys - dynion doeth a'r defnydd o swyn dlysau |
| **Gofal cleifion ac iechyd y cyhoedd** | Rôl yr eglwys a'r mynachlogydd o'r oesoedd canol hyd canol yr unfed ganrif ar bymtheg | clafdai mewn mynachlogydd e.e. Tŷ'r Brodyr Ffransisgaidd, Caerfyrddin; Abaty Tyndyrn; ysbyty Marchogion Sant Ioan (urdd y marchogion ysbytaidd) ar lwybr y pererinion yn Ysbyty Ifan |
| | Rôl elusennau gwirfoddol ac ysbytai gwaddoledig | Rhagoriaeth ysbytai gwirfoddol ar draws Cymru yn eu plith rhai arbenigol fel Ysbyty Morwyr Stanley, Caergybi, 1871 ac Ysbyty Morwyr Hamadryad, Caerdydd o'r 1860au |
| | Nyrsio o ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Betsi Cadwaladr – nyrsio milwrol yn ymateb i'r amodau anhylan a'r fiwrocratiaeth yn ystod Rhyfel y Crimea |
| | Aneurin Bevan a sefydlu'r GIG; | Aneurin Bevan dan ddylanwad ei gefndir yn ne Cymru |
| | Gwelliannau ym maes iechyd y cyhoedd yn ystod oes Fictoria | Sir Henry de la Beche 1844 Adroddiad ar Amodau ym Merthyr; adeiladu cronfeydd dŵr yng Nghymru o'r 1860au |
| | Ymdrechion i wella tai a lleihau llygredd yn yr ugeinfed ganrif | Arolygon gyflwr tai a grantiau gwella y Swyddfa Gymreig yn y cyfnod wedi'r rhyfel |

## 3C: DATBLYGIAD RHYFELA, tua 1250 hyd heddiw

Yn yr opsiwn hwn canolbwyntir fesul thema ar y prif dueddiadau yn natblygiad rhyfela ym Mhrydain o tua 1250 hyd heddiw. Dim ond yn yr achosion hynny lle mae ei ddylanwad yn sylfaenol y nodir cynnwys tramor. Bydd yn ofynnol i ddysgwyr ystyried achosion rhyfel, datblygiadau o ran tactegau a strategaeth, hyfforddiant a recriwtio, rhyfela a thechnoleg, rhyfela llyngesol a rôl menywod mewn rhyfela dros amser. Bydd yn ofynnol hefyd i ddysgwyr ystyried y prif bersbectifau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a gyfrannodd at ddatblygiad rhyfela o tua 1250 hyd heddiw. Yn yr opsiwn hwn, dylai canolfannau sicrhau eu bod yn canolbwyntio, lle y bo'n briodol, ar faterion newid, parhad, arwyddocâd a throbwyntiau. Yn yr opsiwn hwn, dylid pwysleisio effaith y newid mewn rhyfela ar Gymru yn ei gyd-destun hanesyddol ehangach. Yn rhan o'r opsiwn hwn bydd ymgeiswyr yn astudio safle hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r thema hon. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| **Cwestiynau allweddol** | **Cynnwys Gofynnol** |
|---|---|
| **<u>Achosion rhyfel:</u>**<br>**Ai'r un achos a fu erioed i ryfeloedd dros amser?** | *Achosion rhyfel yn gyffredinol gan gyfeirio at ryfeloedd penodol i esbonio ymhellach; crefydd: ei rôl yn achosi rhyfeloedd yn ystod y cyfnod canoloesol; yr awydd am diriogaeth: concwest Edward o Gymru; y frwydr am annibyniaeth: Owain Glyndwr; gwleidyddiaeth: ei rôl yn achosi Rhyfel Cartref yr 1640au; cenedlaetholdeb ac ymlediaeth: sut gwnaethon nhw achosi'r Ail Ryfel Byd; ideoleg: ei rôl yn achosi'r Rhyfel Oer* |
| **<u>Newidiadau mewn tactegau a strategaeth:</u>**<br>**Sut mae tactegau a strategaeth wedi newid dros amser?** | *Tactegau a strategaeth frwydro yn yr oesoedd canol; y defnydd o dactegau llinol hyd canol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; datblygiad rhyfela o'r ffosydd yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf; datblygiad tactegau rhyfel diarbed ar ôl yr Ail Ryfel Byd;* |
| **<u>Hyfforddiant a recriwtio:</u>**<br>**I ba raddau y newidiodd dulliau hyfforddi a recriwtio milwyr dros amser?** | *Dyletswyddau milwrol ffiwdal ; creu byddinoedd cyfnod y Tuduriaid; Byddin Model Newydd yr 1640au a dechreuad y fyddin broffesiynol; y près yn ystod y ddeunawfed a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg; y defnydd o bropaganda wrth recriwtio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf; consgripsiwn, Gwasanaeth Cenedlaethol a milwyr gyrfa yn ystod yr ugeinfed ganrif* |
| **<u>Newidiadau mewn technoleg:</u>**<br>**Pa mor bwysig oedd technoleg yn newid natur rhyfela dros amser?** | *Rhyfela gwarchae canoloesol; datblygiad arfau tanio fel arfau hyd yr ail ganrif ar bymtheg effaith diwydiannu ar arfau yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygiadau mewn peirianwaith yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd: tanciau ac awyrennau; datblygiad arfau niwclear ar ôl yr Ail Ryfel Byd; cyfrifiaduro ac arfau technoleg uchel ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif ac yn ystod yr unfed ganrif ar hugain* |
| **<u>Datblygiad rhyfela llyngesol:</u>**<br>**Beth oedd y prif ddatblygiadau mewn rhyfela llyngesol dros amser?** | *Datblygiad y llynges yng nghyfnod y Tuduriaid; twf llynges Prydain o ganol yr ail ganrif ar bymtheg; rôl y Llynges Frenhinol yng ngorchfygiad Napoleon erbyn 1815; rôl y Llynges Frenhinol yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd; swyddogaeth y Llynges Frenhinol ar ddiwedd yr ugeinfed ganrif a dechrau'r unfed ganrif ar hugain* |

| | |
|---|---|
| **<u>Rôl menywod yn ystod rhyfel</u>**<br>**Sut mae rôl menywod mewn rhyfela wedi newid dros amser?** | *Rôl menywod mewn brwydrau yn yr oesoedd canol; menywod a'r rôl oedd ganddyn nhw ym myddinoedd Prydain 1500-1815: nyrsio a chefnogaeth; rôl menywod fel nyrsys a nyrsys cynorthwyol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; menywod a'r rôl oedd ganddyn nhw ar y Ffryntiau Cartref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd; menywod yn flaenllaw fel milwyr a meddygon yn ystod yr ugeinfed ganrif a'r unfed ganrif ar hugain* |
| **Astudiaeth o safle hanesyddol sy'n gysylltiedig â datblygiad rhyfela** | *Mae astudiaeth o safle hanesyddol ymhlyg yng nghynnwys gofynnol yr astudiaeth thematig hon*<br>*Yn rhan o'r cynnwys gofynnol uchod, dylai canolfannau astudio'r safle hanesyddol a enwebir isod:* |
| **Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol, dylai dysgwyr ystyried y canlynol:**<br>• nodweddion allweddol y safle hanesyddol<br>• arwyddocâd y safle hanesyddol ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol<br>• pa mor berthnasol yw'r safle hanesyddol i ddatblygiad rhyfela dros amser<br>• sut mae'r safle hanesyddol yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o newidiadau yn hanes datblygiad rhyfela | ***Castell Harlech, tua 1282-1647***<br>*Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol hwn dylai canolfannau ganolbwyntio ar y canlynol:*<br>• *rhesymau dros adeiladu Castell Harlech*<br>• *sut mae dyluniad Castell Harlech wedi newid dros amser*<br>• *gwarchaeau Castell Harlech*<br>• *Castell Harlech yn ystod y Rhyfel Cartref* |

**YMHELAETHU AR Y CYNNWYS I WELLA'R YMDRINIAETH O BERSBECTIF CYMREIG**

Wrth ymdrin â'r themâu ehangach sy'n gysylltiedig â datblygiad rhyfela o tua 1250 hyd heddiw, cynghorir athrawon i gynnwys enghreifftiau perthnasol a phriodol wrth addysgu sy'n cyfleu'r persbectif Cymreig ac effaith y datblygiadau hyn ar Gymru. **Noder mai awgrymiadau yn unig yw'r enghreifftiau hyn. Anogir athrawon i ddefnyddio enghreifftiau o'r rhestr hon ynghyd ag unrhyw enghreifftiau lleol priodol eraill:**

| THEMA GYSYLLTIOL | CANOLBWYNT Y CYNNWYS | PERSBECTIF CYMREIG |
|---|---|---|
| **Achosion rhyfeloedd** | Yr awydd am diriogaeth | Cystadleuaeth rhwng arweinwyr rhanbarthau Cymru cyn concwest Edward |
| | Cenedligrwydd ac annibyniaeth | Ymgyrch Llywelyn ap Gruffydd, 1240au; ymgyrch Owain Glyndwr, 1400-1415 |
| **Dulliau recriwtio** | Dyletswyddau milwrol ffiwdal | Rhwymedigaethau a ddiffiniwyd yng Nghyfraith Hywel Dda |
| | Y defnydd o bropaganda wrth recriwtio yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf | Propaganda ar gyfer recriwtio, consgripsiwn a gwrthwynebiad cydwybodol yng Nghymru; catrodau Cymreig yn y Rhyfel Byd Cyntaf |
| | Gwirfoddoli yn yr ugeinfed ganrif | Gwirfoddolwyr o Gymru yn y Brigadau Rhyngwladol e.e. Tommy Jones o Aberdâr |
| | Gwasanaeth Cenedlaethol a milwyr gyrfa yn ystod yr ugeinfed ganrif | Lleoli catrodau Cymreig yn yr 1950au; rhan y Cymry yn Rhyfel y Falkland/Malvinas |
| | Milwyr gyrfa yn yr ugeinfed ganrif | Barics y fyddin yng Nghymru e.e. Aberhonddu, Pontsenni a Chastellmartin |
| **Newidiadau yn y mathau o ryfela a'r dulliau o ymladd** | Tactegau a strategaeth brwydro yn yr oesoedd canol | Cyngor Gerallt i'r Cymry; natur tactegau a strategaeth frwydro yn yr oesoedd canol fel mae achosion o wrthdaro yng Nghymru yn ei dangos |
| | Datblygiad arfau | Llunio bwa hir a sgiliau saethwyr canoloesol o Gymru yn ystod y Rhyfel Can Mlynedd e.e. Agincourt, 1415 |
| | Rhyfela gwarchae'r oesoedd canol | Gwarchaeau – Dryslwyn, 1287; Biwmares, 1403; Harlech, 1461-68; Penfro, 1648 |
| | Tactegau rhyfel y Rhyfel Cartref | Brwydr Sain Ffagan, 1648 |
| | Datblygiadau mewn peirianwaith yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd | Caffael tir ar gyfer hyfforddiant – Rhiw Goch, Trawsfynydd, 1906; Castellmartin, 1939; Mynydd Epynt, 1939 |
| | Datblygiad rhyfela o'r awyr yn ystod yr ugeinfed ganrif | Penyberth, 1936 |
| | Datblygiadau yn y defnydd o awyrennau yn ystod yr Ail Ryfel Byd | Cyrchoedd bomio ar Gaerdydd ac Abertawe; hyfforddi yng Nghymru er mwyn paratoi ar gyfer ymosodiad y 'dam busters' ar ddyffryn y Ruhr |
| | Datblygiad rhyfela llyngesol | Rôl dociau'r Llynges Frenhinol, Doc Penfro, 1815-1925 |
| | Rôl menywod fel nyrsys a nyrsys cynorthwyol yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg | Gwaith Betsi Cadwaladr |
| | Menywod a'r rôl oedd ganddyn nhw ar y Ffryntiau Cartref yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd | Gweithio mewn ffatrïoedd arfau fel Hirwaun, Glascoed, Penybont ar Ogwr, Casnewydd; gwaith ar y tir |

## 3CH: PATRYMAU MUDO, tua 1500 hyd heddiw

Yn yr opsiwn hwn canolbwyntir fesul thema ar y prif dueddiadau yn y patrymau mudo i mewn ac allan o Brydain o tua 1500 hyd heddiw. Dim ond yn yr achosion hynny lle mae ei ddylanwad yn sylfaenol y nodir cynnwys tramor.Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr ystyried datblygiadau ym mhatrymau mewnfudo ac ymfudo dros amser. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr archwilio'r prif bersbectifau gwleidyddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a gyfrannodd at batrymau mudo o tua 1500 hyd heddiw. Yn yr opsiwn hwn, dylai canolfannau sicrhau eu bod yn canolbwyntio, lle y bo'n briodol, ar faterion newid, parhad, arwyddocâd a throbwyntiau. Yn yr opsiwn hwn, dylid pwysleisio effaith patrymau mudo ar Gymru yn ei gyd-destun hanesyddol ehangach. Yn rhan o'r opsiwn hwn bydd ymgeiswyr yn astudio safle hanesyddol sy'n gysylltiedig â'r thema hon. Mae'r cynnwys gofynnol isod yn dangos pa nodweddion a phriodoleddau allweddol o'r cyfnod y mae'n rhaid eu hastudio.

| Cwestiynau allweddol | Cynnwys Gofynnol |
|---|---|
| **<u>Rhesymau dros fewnfudo:</u>**<br>**Beth oedd y prif resymau dros fewnfudo i Brydain dros amser?** | *Masnach a masnachu: newydd-ddyfodiaid o Affrica ac Asia yn ystod yr unfed ganrif ar bymtheg a'r ail ganrif ar bymtheg; cyflogaeth; mudo i mewn i'r ardaloedd diwydiannol o'r ardaloedd gwledig ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg; gwaddol ymerodraeth: mewnfudwyr o wledydd y Gymanwlad ar ôl yr Ail Ryfel Byd; integreiddio Ewropeaidd: mudwyr o wledydd y Gymanwlad yn ystod yr unfed ganrif ar hugain* |
| **<u>Profiadau mewnfudwyr:</u>**<br>**Pa brofiadau gafodd y grwpiau amrywiol o fewnfudwyr a beth oedd yr ymateb iddyn nhw?** | *Profiad mudwyr yn ystod y chwyldro diwydiannol; profiad mudwyr o wledydd y Gymanwlad yn yr 1950au a'r 1960au; deddfwriaeth cysylltiadau hiliol yn yr 1970au; y materion yn deillio o ymfudo â chydsyniad yr UE yn yr unfed ganrif ar hugain* |
| **<u>Effaith mewnfudo ar Brydain:</u>**<br>**Sut effeithiodd mewnfudwyr ar y gymdeithas ym Mhrydain?** | *Effaith gymdeithasol ac economaidd mewnfudwyr yn ystod chwyldro diwydiannol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; effaith y mudwyr o wledydd y Gymanwlad ar gymdeithas Prydain: busnes, chwaraeon, bwyd a cherddoriaeth; effaith mewnfudo o'r UE ar fywyd gwleidyddol ac economaidd mewn rhannau o Brydain yn yr unfed ganrif ar hugain* |
| **<u>Rhesymau dros ymfudo:</u>**<br>**Beth oedd y prif resymau dros ymfudo o Brydain dros amser?** | *Erledigaeth: y Tadau Pererin, 1620; chwilio am ryddid gwleidyddol a chrefyddol: William Penn a'r Crynwyr, 1680au; tlodi: y Gwyddelod ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg; dylanwadau diwylliannol: mordaith y Mimosa i Batagonia yn 1865; economaidd: Cymry'n ymfudo i Loegr yn yr 1930au* |
| **<u>Profiadau ymfudwyr:</u>**<br>**Pa brofiadau gafodd y grwpiau amrywiol o ymfudwyr a beth oedd yr ymateb iddyn nhw?** | *Profiadau'r gwladychwyr Piwritanaidd cynnar yn y trefedigaethau yn America; y Gwyddelod yn gwladychu yng Ngogledd America yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg; ymdrechion i sefydlu gwladfa gan Gymry ym Mhatagonia; profiadau pobl o Brydain yn Awstralia yn yr 1950au a'r 1960au; ymateb y poblogaethau sy'n eu derbyn i'r ymfudwyr* |

| | |
|---|---|
| **Effaith ymfudo:**<br>**Sut effeithiodd ymfudwyr ar eu cyrchfan?** | *Dylanwad y Piwritaniaid ar sefydlu'r Unol Daleithiau yn yr 1770au; effaith y gymuned Wyddelig Gatholig yng Ngogledd America; goroesiad y diwylliant Cymreig ym Mhatagonia; effaith ymfudwyr a'u disgynyddion ar wleidyddiaeth, economeg, cerddoriaeth a chwaraeon* |
| **Astudiaeth o safle hanesyddol sy'n gysylltiedig â mudo** | *Mae astudiaeth o safle hanesyddol ymhlyg yng nghynnwys gofynnol yr astudiaeth thematig hon Yn rhan o'r cynnwys gofynnol uchod, dylai canolfannau astudio'r safle hanesyddol a enwebir isod:* |
| **Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol, dylai dysgwyr ystyried y canlynol:**<br>• nodweddion allweddol y safle hanesyddol<br>• arwyddocâd y safle hanesyddol ar lefel leol, ranbarthol neu genedlaethol<br>• pa mor berthnasol yw'r safle hanesyddol i ddatblygiad patrymau mudo<br>• sut mae'r safle hanesyddol yn cyfrannu at ddealltwriaeth ehangach o newidiadau yn hanes mudo | ***Anheddau Patagonia***<br><br>*Yn eu hastudiaeth am y safle hanesyddol hwn dylai canolfannau ganolbwyntio ar y canlynol:*<br>• *rhesymau dros fudo o Gymru i Batagonia yn yr 1860au*<br>• *problemau sy'n gysylltiedig â'r gwladychu ym Mhatagonia*<br>• *sefydlu cymunedau Cymreig a Chymraeg ym Mhatagonia*<br>• *arwyddocâd y wladfa o Gymry ym Mhatagonia heddiw* |

**YMHELAETHU AR Y CYNNWYS I WELLA'R YMDRINIAETH O BERSBECTIF CYMREIG**

Wrth ymdrin â'r themâu ehangach sy'n gysylltiedig â newidiadau ym mhatrymau mudo o tua 1500 hyd heddiw, cynghorir athrawon i gynnwys enghreifftiau perthnasol a phriodol wrth addysgu sy'n cyfleu'r persbectif Cymreig ac effaith y datblygiadau hyn ar Gymru. **Noder mai awgrymiadau yn unig yw'r enghreifftiau hyn. Anogir athrawon i ddefnyddio enghreifftiau o'r rhestr hon ynghyd ag unrhyw enghreifftiau lleol priodol eraill:**

| THEMA GYSYLLTIOL | CANOLBWYNT Y CYNNWYS | PERSBECTIF CYMREIG |
|---|---|---|
| **Mudo byd-eang i mewn i Gymru** | Rhesymau dros fewnfudo | Newyn a mewnfudo o Iwerddon yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; mewnfudo economaidd o'r Eidal ar ddiwedd yr 19eg ganrif; mewnfudo o wledydd y Gymanwlad ar ddiwedd yr 20fed ganrif; mewnfudo o'r UE yn ystod yr 21ain ganrif |
| | Profiad cymunedau mewnfudwyr | Trebiwt - un o'r cymunedau amlddiwylliannol cyntaf ym Mhrydain yr oedd mwy na 50 o genhedloedd gwahanol yn byw yno erbyn y Rhyfel Byd Cyntaf |
| | Ymatebion y poblogaethau sy'n eu derbyn i'r mewnfudwyr | Terfysgoedd gwrth-Wyddelig yng Nghaerdydd, 1848; terfysgoedd gwrth-Iddewig yn Nhredegar a Glyn Ebwy, 1911; terfysgoedd hiliol yng Nghaerdydd, Casnewydd a'r Barri, 1919; caethiwo Eidalwyr a'r Arandora Star, 1940 |
| | Effaith gymdeithasol a diwylliannol mewnfudo | Llafur Gwyddelig: rheilffyrdd, gweithfeydd haearn, y dociau; dylanwadau ymfudwyr o'r Eidal – y caffi 'Bracchi'; cyfraniad economaidd gweithwyr yr UE yn ystod yr unfed ganrif ar hugain |
| **Mudo o Gymru;** | Ffoaduriaid crefyddol | Mudo i America o'r 17eg ganrif e.e. Cynulleidfa Bedyddwyr John Miles yn Rehoboth, Massachusetts; 1848, cyrhaeddodd 249 o Formoniaid o Gymru Salt Lake City |
| | Ymdrechion i sefydlu gwladfa gan Gymry ym Mhatagonia | Michael D Jones; 'Cymru fach ymhell o Gymru'; y Mimosa'n hwylio, 28 Mai 1865; Dyffryn Chubut |
| | Mudo i America oherwydd rhesymau economaidd | Rhwng 1850 a 1870 ymfudodd 60,000 o bobl i'r UDA o Gymru; e.e. glowyr yn Scranton a Wilkes-Barre; gweithwyr tunplat yn Pittsburgh |
| | Profiadau ymfudwyr | Profiad y gwladychwyr cynnar ym Mhatagonia; atgyfnerthu a gwella'r gydberthynas â Teheulches; ehangu i'r dwyrain; gwrthdaro â llywodraeth Yr Ariannin |
| | Effaith ymfudo | Goroesiad y diwylliant Cymreig ym Mhatagonia; mewnfudwyr blaenllaw o Gymru yn America ac Awstralia – John L Lewis o'r United Mine Workers Labor Union a Billy Hughes |
| **Mudo i mewn** | Rhesymau dros fudo | Mudo o'r wlad i'r dref yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg; mudo o Loegr i Gymru, 1901-1910; Cymry'n ymfudo i Loegr yn yr 1930au; cymunedau o Gymry yn Lloegr: e.e. Llundain, Lerpwl, Coventry |
| | Effaith mudo o Loegr ar Gymru | Datblygodd Saesneg i fod yn brif iaith ar lawer o gymunedau De Cymru ar ddechrau'r 20fed ganrif |

## 2.4 Uned 4 Gweithio fel hanesydd: asesu di-arholiad (NEA)

**Mae'r asesiad di-arholiad yn rhan orfodol o TGAU Hanes.** Mae'n ategu'r arholiadau allanol drwy gynnig profiad dysgu a dull asesu gwahanol ac eglur.

Yn Uned 4 bydd gofyn cwblhau dau asesiad di-arholiad gwahanol, un yn canolbwyntio ar werthuso ffynonellau wrth greu naratif hanesyddol ac un yn canolbwyntio ar ffurfio dehongliadau hanesyddol gwahanol am hanes.

**Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu'n fewnol a'i safoni'n allanol gan y corff dyfarnu. Gweler tudalen 35 am fanylion gweinyddu'r asesiad di-arholiad.**

# 3 ASESU

## 3.1 Amcanion asesu a phwysoli

Mae amcanion asesu'r fanyleb hon wedi'u rhoi isod. Rhaid i ddysgwyr ddangos eu gallu i:

**AA1 [35%]**
Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o brif nodweddion a phriodoleddau'r cyfnodau a astudiwyd.

**AA2 [35%]**
Esbonio a dadansoddi digwyddiadau a chyfnodau hanesyddol a astudiwyd gan ddefnyddio cysyniadau hanesyddol yr ail drefn.

**AA3 [15%]**
Dadansoddi, gwerthuso a defnyddio ffynonellau (cyfoes i'r cyfnod) er mwyn dod i farn wedi'i chyfiawnhau, yng nghyd-destun y digwyddiadau hanesyddol a astudiwyd.

**AA4 [15%]**
Dadansoddi, gwerthuso a dod i farn wedi'i chyfiawnhau am ddehongliadau (gan gynnwys sut a pham mae'r rhain yn gallu bod yn wahanol) yng nghyd-destun y digwyddiadau hanesyddol a astudiwyd.

Mae'r tabl isod yn dangos pwysoli pob amcan asesu ar gyfer pob cydran ac am y cymhwyster yn gyffredinol.

| | **AA1** | **AA2** | **AA3** | **AA4** | **Cyfanswm** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 6 | 9 | 4 | 6 | 25% |
| **Uned 2** | 13 | 6 | 6 | | 25% |
| **Uned 3** | 13 | 16 | 1 | | 30% |
| **Uned 4** | 3 | 4 | 4 | 9 | 20% |
| **Pwysoli Cyffredinol** | 35% | 35% | 15% | 15% | 100% |

## 3.2 Cynllun Asesu

Mae’r asesu ar gyfer TGAU Hanes yn ddi-haen, h.y. y mae pob uned yn darparu ar gyfer yr holl ystod gallu ac mae graddau A*-G ar gael wrth ddyfarnu’r pwnc.

Amlinellir y cynllun asesu isod:

**Uned 1: Astudiaethau Manwl – Cymru a'r persbectif ehangach**

**Mae canolfannau'n dewis astudio <u>un</u> o’r opsiynau canlynol:**

1A Oes Elisabeth, 1558-1603
1B Radicaliaeth a Phrotest, 1810-1848
1C Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951
1Ch Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd, 1951-1979

Bydd pum cwestiwn ar bob papur arholiad. **Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ateb bob cwestiwn ar y papur arholiad.**

**Uned 2: Astudiaethau Manwl – Hanes yn canolbwyntio ar Ewrop / y byd**

**Mae canolfannau'n dewis astudio <u>un</u> o’r opsiynau canlynol:**

2A Rwsia mewn Cyfnod o Newid, 1905-1924
2B UDA: Gwlad Gwahaniaethau, 1910-1929
2C Yr Almaen mewn Cyfnod o Newid, 1919-1939
2Ch De Affrica, 1948-1994

Bydd pum chwestiwn ar bob papur arholiad. **Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ateb bob cwestiwn ar y papur arholiad.**

**Uned 3: Astudiaethau Thematig o bersbectif hanesyddol eang**

**Mae canolfannau'n dewis astudio <u>un</u> o’r opsiynau canlynol:**

3A Newidiadau ym maes Trosedd a Chosb, tua 1500 hyd heddiw
3B Newidiadau ym maes Iechyd a Meddygaeth, tua 1340 hyd heddiw
3C Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw
3Ch Patrymau Mudo, tua 1500 hyd heddiw

Bydd saith cwestiwn ar bob papur arholiad. **Bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd ateb bob cwestiwn ar y papur arholiad.**

**Noder y bydd cwestiynau arholiad Uned 3 yn gofyn i'r ymgeiswyr gyfeirio at effaith newidiadau ar Gymru neu bersbectif Cymreig. Felly, rhaid astudio enghreifftiau o'r rhain.**

**Uned 4: Gweithio fel hanesydd: asesu di-arholiad (NEA)**

**Mae’r asesiad di-arholiad yn rhan orfodol o TGAU Hanes.** Mae’n ategu’r arholiadau allanol drwy gynnig profiad dysgu a dull asesu gwahanol ac eglur.

Yn Uned 4 bydd gofyn cwblhau dau asesiad di-arholiad gwahanol, un yn canolbwyntio ar werthuso ffynonellau wrth greu naratif hanesyddol ac un yn canolbwyntio ar ffurfio dehongliadau hanesyddol gwahanol am hanes.

**Bydd yr uned hon yn cael ei hasesu’n fewnol a'i safoni'n allanol gan CBAC.**

**Mae’n rhaid i CBAC gymeradwyo pob cynnig am aseiniad asesiad dan reolaeth.** Rhaid i'r asesiad di-arholiad ddod o faes cynnwys nad yw’n cael ei astudio yng ngweddill y fanyleb. Bydd y maes cynnwys ar gyfer yr asesiad di-arholiad felly’n dibynnu ar yr opsiynau a ddewiswyd yn yr unedau sy’n cael eu harholi.

Bydd CBAC yn darparu dewis eang o enghreifftiau o asesiadau di-arholiad y gall canolfannau ddewis o'u plith. Neu, gall canolfannau ddyfeisio eu tasgau asesiad di-arholiad eu hunain y mae'n rhaid iddyn nhw ddilyn arddull a gofynion yr enghreifftiau a ddarperir gan CBAC. Caiff y tasgau hyn eu dilysu gan uwch safonwr cyn i ddysgwyr gychwyn ar eu tasgau.

# 4 GWYBODAETH DECHNEGOL

## 4.1 Cofrestru

Rhaid cofrestru pob ymgeisydd sy'n sefyll y cymhwyster TGAU Hanes hwn am un opsiwn o Uned 1, un opsiwn o Uned 2, ac un opsiwn o Uned 3. Hefyd, rhaid cofrestru pob ymgeisydd am Uned 4, a chyfnewid y cymhwyster.

Unwaith yn unig y gall ymgeiswyr ailsefyll uned unigol. Defnyddir y marc unffurf gwell o'r ddau gynnig i gyfrifo'r radd derfynol gyffredinol cyhyd ag y bodlonir y **rheol derfynol** yn gyntaf h.y. rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r rhan leiaf o'r asesiad sy'n ofynnol i ennill cymhwyster yn y gyfres y maent yn cyfnewid ynddi. Pennir y rheol derfynol ar 40% o gymhwyster cyffredinol TGAU Hanes. Os yw'r asesiad sy'n cael ei ailgymryd yn cyfrannu at y gofyniad rheol derfynol o 40%, marc yr asesiad newydd fydd yn cyfrif.

Os yw ymgeisydd wedi rhoi cynnig ar unrhyw uned ddwywaith a'i fod yn dymuno cofrestru amdani am y trydydd tro, bydd rhaid i'r ymgeisydd ail-gofrestru am bob uned a'r cyfnewid priodol. Cyfeirir at hyn fel 'dechrau o'r newydd'. Pan gaiff cymhwyster ei ailgymryd (dechrau o'r newydd), gall ymgeisydd roi hyd at ddau gynnig arall ar bob uned. Fodd bynnag, ni ellir defnyddio canlyniadau o unedau a safwyd cyn dechrau o'r newydd wrth agregu'r radd (graddau) newydd.

Gellir trosglwyddo marciau asesu di-arholiad dros gyfnod oes y fanyleb.

Os cofrestrwyd ymgeisydd am uned ond ei fod yn absennol am yr uned honno, nid yw'r absenoldeb yn cyfrif fel ymgais. Fodd bynnag, byddai'r ymgeisydd yn cael ei ddisgrifio fel ymgeisydd ailsefyll.

Mae'r codau cofrestru i'w gweld isod.

| | Teitl yr opsiwn | Codau cofrestru | |
|---|---|---|---|
| | | **Cyfrwng Saesneg** | **Cyfrwng Cymraeg** |
| Uned 1 | 1A. Oes Elisabeth, 1558-1603 | 3100UA | 3100NA |
| | 1B. Radicaliaeth a Phrotest, 1810-1848 | 3100UB | 3100NB |
| | 1C. Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951 | 3100UC | 3100NC |
| | 1Ch. Caledi, Cyfoeth ac Anniddigrwydd, 1951-1979 | 3100UD | 3100ND |
| Uned 2 | 2A. Rwsia mewn Cyfnod o Newid, 1905-1924 | 3100UE | 3100NE |
| | 2B. UDA: Gwlad Gwahaniaethau, 1910-1929 | 3100UF | 3100NF |
| | 2C. Yr Almaen mewn Cyfnod o Newid, 1919-1939 | 3100UG | 3100NG |
| | 2Ch. Newidiadau yn Ne Affrica, 1948-1994 | 3100UH | 3100NH |
| Uned 3 | 3A. Newidiadau ym maes Trosedd a Chosb, tua 1500 hyd heddiw | 3100UJ | 3100NJ |
| | 3B. Newidiadau ym maes Iechyd a Meddygaeth, tua 1340 hyd heddiw | 3100UK | 3100NK |
| | 3C. Datblygiad Rhyfela, tua 1250 hyd heddiw | 3100UL | 3100NL |
| | 3Ch. Newidiadau ym Mhatrymau Mudo, tua 1500 hyd heddiw | 3100UM | 3100NM |
| Uned 4 | Gweithio fel hanesydd | 3100UN | 3100NN |
| Cyfnewid Cymhwyster TGAU | | 3100QS | 3100CS |

Mae rhifyn cyfredol ein dogfen *Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau* yn rhoi'r dulliau cofrestru diweddaraf.

## 4.2 Graddio, dyfarnu ac adrodd yn ôl

Mae cymwysterau TGAU yn cael eu hadrodd ar raddfa wyth pwynt o A* i G, ac A* yw’r radd uchaf. Bydd cyrhaeddiad myfyrwyr na fyddant yn llwyddo i gyrraedd y safon isaf bosibl i gael gradd yn cael ei gofnodi fel U (annosbarthedig) ac ni fyddant yn derbyn tystysgrif.

Caiff canlyniadau unedau unigol eu hadrodd ar raddfa marciau unffurf (GMU) gyda'r cyfatebiaethau gradd canlynol:

| **Gradd** | **UCHAF.** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Uned 1** | 75 | 68 | 60 | 53 | 45 | 38 | 30 | 23 | 15 |
| **Uned 2** | 75 | 68 | 60 | 53 | 45 | 38 | 30 | 23 | 15 |
| **Uned 3** | 90 | 81 | 72 | 63 | 54 | 45 | 36 | 27 | 18 |
| **Uned 4** | 60 | 54 | 48 | 42 | 36 | 30 | 24 | 18 | 12 |
| **Dyfarniad Pwnc** | 300 | 270 | 240 | 210 | 180 | 150 | 120 | 90 | 60 |

# 5 GWEINYDDU ASESU DI-ARHOLIAD

Mae cwrs TGAU Hanes CBAC yn bodloni'r holl reoliadau'n ymwneud ag asesu di-arholiad.

**RHESYMEG DROS ASESU DI-ARHOLIAD**

**Mae'r asesiad dan reolaeth yn rhan orfodol o TGAU Hanes.** Mae'n ategu'r arholiadau allanol drwy gynnig profiad dysgu a dull asesu gwahanol a nodedig. Mae'n bwysig am nifer o resymau:

- mae'n galluogi ymgeiswyr i gyfrannu at broses ymchwil hanesyddol a dod i gasgliadau â sail gadarn iddynt
- mae'n galluogi ymgeiswyr i ddadansoddi a gwerthuso ffynonellau a dehongliadau hanesyddol yng nghyd-destun ymchwiliad
- mae'n galluogi ymgeiswyr i gynhyrchu naratifau, esboniadau a dadansoddiadau estynedig
- lle y bo'n briodol, mae'n galluogi ymgeiswyr i archwilio a deall agweddau hanesyddol o natur fwy arbenigol, gan gynnwys materion lleol, ymweliadau â safleoedd neu ffilmiau neu'r cyfryngau.

**Y CYNLLUN ASESU**

**Mae'r asesiad di-arholiad yn werth 20% o gyfanswm y marciau** sydd ar gael ar gyfer y fanyleb.

Mae'r **asesiad di-arholiad yn** asesu'r holl amcanion asesu ar gyfer TGAU Hanes.

| | | |
|---|---|---|
| **AA1** | Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o brif nodweddion a phriodoleddau'r cyfnodau a astudiwyd. | 6 marc (3% o'r cyfanswm) |
| **AA2** | Esbonio a dadansoddi digwyddiadau a chyfnodau hanesyddol a astudiwyd gan ddefnyddio cysyniadau hanesyddol yr ail drefn. | 8 marc (4% o'r cyfanswm) |
| **AA3** | Dadansoddi, gwerthuso a defnyddio ffynonellau (cyfoes i'r cyfnod) er mwyn dod i farn wedi'i chyfiawnhau, yng nghyd-destun y digwyddiadau hanesyddol a astudiwyd. | 8 marc (4% o'r cyfanswm) |
| **AA4** | Dadansoddi, gwerthuso a dod i farn wedi'i chyfiawnhau am ddehongliadau (gan gynnwys sut a pham mae'r rhain yn gallu bod yn wahanol) yng nghyd-destun y digwyddiadau hanesyddol a astudiwyd. | 18 marc (9% o'r cyfanswm) |

**CYFLWYNO'R ASESIAD DI-ARHOLIAD**

Yn yr uned asesiad di-arholiad, dylid astudio'n fanwl y testun(au) y seiliwyd yr asesiad di-arholiad arno (arnynt). **Mae'n rhaid i ganolfannau lenwi ffurflen gynnig ar gyfer yr uned asesiad dan reolaeth a'i chyflwyno.** Ar y ffurflen hon, rhaid i ganolfannau enwi'r cynnwys hanesyddol fydd yn cael ei drafod wrth gwblhau'r uned asesiad di-arholiad. Bydd disgwyl i ganolfannau nodi manylion cefndir/cyd-destun, y prif nodweddion y byddan nhw'n ymdrin â nhw, arwyddocâd y cynnwys a ddewiswyd

a'r dehongliadau hanesyddol i'w trafod. **Mae'n rhaid cyflwyno'r ffurflen hon i CBAC o leiaf chwe wythnos cyn y dyddiad y mae'r ganolfan yn bwriadu cychwyn ar yr uned asesiad di-arholiad.** Disgwylir i ganolfannau gadw tystiolaeth o waith a wnaed gan yr ymgeiswyr yn y dosbarth. Bydd hyn yn cynnwys llyfrau gwaith a ffolderi o nodiadau dosbarth. Gall y safonwr ofyn am hyn ar ôl anfon y sampl.

**Mae'r dasg rhan (a)** yn rhoi'r cyfle i'r ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso ffynonellau hanesyddol perthnasol wrth gynnal ymholiad ar agwedd ar hanes o'r maes testun a ddewiswyd. Bydd yr ateb i ran (a) yn cael ei farcio ar wahân ac mae'n werth 14 o farciau.

**Mae'r dasg rhan (b)** yn rhoi'r cyfle i ymgeiswyr drafod mater o ddadl hanesyddol sy'n deillio o'r maes testun a ddewiswyd. Mae'n rhaid i'r dasg roi'r cyfle i'r ymgeiswyr ddadansoddi a gwerthuso o leiaf ddau wahanol ddehongliad hanesyddol o'r mater a ddewiswyd. Bydd yr ateb i ran (b) yn cael ei farcio ar wahân ac mae'n werth 26 o farciau.

**Mae'r rhannau y mae angen i'r ganolfan eu llenwi ar y ffurflen gynnig i ddangos y cyd-destun hanesyddol i'w gweld isod:**

| | |
|---|---|
| **Cefndir i ymdrin ag ef** | |
| **Prif ddigwyddiadau a datblygiadau i'w haddysgu** | |
| **Arwyddocâd / effaith y prif ddigwyddiadau / datblygiadau i ymdrin â nhw yn rhan (a)** | |
| **Dehongliadau hanesyddol o'r mater i ymdrin ag ef yn rhan (b)** | |

**Mae'r ffurflen gynnig gyflawn, sy'n cynnwys ffurflen i'r safonwr ymgynghorol roi adborth, i'w gweld ar dudalen y pwnc TGAU Hanes ar wefan CBAC. Dylid anfon y ffurflen gynnig i CBAC.**

**LEFELAU O REOLAETH**

Mae'r asesiad di-arholiad mewn TGAU Hanes yn cael ei rannu'n dri cham:

- gosod tasgau
- ymgymryd â thasgau
- marcio tasgau

Ar gyfer pob cam, mae’r rheoliadau ar gyfer asesu dan reolaeth yn pennu lefel benodol o reolaeth er mwyn sicrhau dilysrwydd a dibynadwyedd.

**GOSOD TASGAU**

Yn gyffredinol mae gan yr agwedd hon lefel **uchel** o reolaeth.

**Mae’n rhaid i ymgeiswyr gwblhau ymchwiliad hanesyddol, sydd wedi'i rannu'n ddwy ran, (a) a (b).** Mae’n rhaid i hyn godi o'r addysgu mewn maes testun sylweddol. Bydd yr asesiad di-arholiad ar ffurf **dau** ymateb i’r cwestiynau a osodwyd. Mae'r asesiad di-arholiad yn werth 20% o gyfanswm y marciau sydd ar gael ar gyfer yr arholiad.

**Mae’n rhaid bod yr asesiad di-arholiad yn galluogi ymgeiswyr i arddangos, fel rhan o ymchwiliad hanesyddol:**

(a) eu gwybodaeth a’u dealltwriaeth o fater hanesyddol penodol
(b) sut cafodd agweddau ar y gorffennol eu dehongli a’u portreadu mewn ffyrdd gwahanol.

**Bydd CBAC yn darparu nifer o asesiadau di-arholiad tebyg ar gyfer pob testun y gall y canolfannau ddewis o'u plith.** Caniateir i ganolfannau roi cyd-destun i’r tasgau hynny yn ôl eu hamgylchiadau penodol. Bydd hyn o werth arbennig os yw persbectif lleol neu ranbarthol yn berthnasol i’r ganolfan neu faes o ddiddordeb arbennig.

**Dylai fod pecyn o ddogfennau ynghlwm wrth bob tasg asesiad di-arholiad.** Y rhain wedyn fydd sail natur ymchwiliol y dasg.

- Bydd CBAC yn darparu pecyn cychwynnol o tua 10 dogfen ar gyfer pob tasg. Anogir canolfannau i ychwanegu at y pecyn hwn at ddefnydd eu hymgeiswyr eu hunain. Dylai’r pecyn gynnwys hyd at 25 o ffynonellau i ganiatáu dewis.

- Dylai’r pecyn hefyd gynnwys amrywiaeth o dystiolaeth hanesyddol gan gynnwys ffynonellau cyfoes yn ogystal â rhai diweddarach.

- Dylai’r pecyn gynnwys ffynonellau sy’n amlinellu’n glir o leiaf dau ddehongliad ar y testun a osodwyd.

- Caniateir cyfeirio at fideo / DVDau a’r rhyngrwyd/gwefannau fel tystiolaeth.

**Bydd ymgeiswyr yn defnyddio’r pecyn o ffynonellau fel sail i’w hymchwil a’u hymholiadau ac er mwyn trafod sut a pham y datblygwyd dehongliadau gwahanol ar y testun penodol.**

**NODER Y BYDD Y TASGAU ASESIAD DI-ARHOLIAD I'W CWBLHAU GAN GANOLFANNAU O 2017 YN WEITHREDOL AM UCHAFSWM O DAIR BLYNEDD DDYFARNU (2019, 2020 A 2021). BYDD ANGEN CYFLWYNO FFURFLEN GYNNIG NEWYDD YN CYNNWYS TASGAU ASESIAD DI-ARHOLIAD NEWYDD I CBAC YN 2021 AR GYFER DYFARNIADAU 2022, 2023 A 2024, NEU HYD NES Y BYDD MANYLEB NEWYDD YN DISODLI'R FANYLEB OS BYDD HYNNY'N DIGWYDD YN GYNHARACH.**

## DEFNYDDIO FFURFLEN GYNNIG I OSOD TASGAU

Disgwylir i ganolfannau ddarparu gwybodaeth i CBAC ynglŷn â'r uned asesiad di-arholiad o'u dewis fesul tair blynedd. Mae ffurflen gynnig benodol ar gael i'w defnyddio ar gyfer hyn. Mae sawl diben i gyflwyno'r ffurflen gynnig:

- Mae'n galluogi CBAC i fonitro bod canolfannau'n cydymffurfio â'r rheoliadau'n ymwneud â chyfnewid tasgau asesiad di-arholiad bob tair blynedd.

- Mae'n galluogi CBAC i roi cyngor am addasrwydd tasgau asesiad di-arholiad os yw canolfannau'n penderfynu eu cyd-destunoli.

- Mae'n helpu'r canolfannau i lunio cwrs cydlynol TGAU Hanes ac yn ganllaw hanfodol i staff addysgu gyfeirio ato.

- Os yw canolfan yn dewis defnyddio tasgau asesiad di-arholiad wedi'u gosod gan CBAC yna dylid cyflwyno ffurflen gynnig o hyd, ond nid oes angen cyflwyno unrhyw ddeunydd ffynhonnell.

- Os yw canolfan yn dewis cyd-destunoli tasg asesiad di-arholiad wedi'i gosod gan CBAC i weddu i'w hamgylchiadau penodol ei hun, yna rhaid cyflwyno ffurflen gynnig yn rhoi manylion llawn y cynnwys i ymdrin ag ef, teitlau diwygiedig a phecyn llawn o ffynonellau ynghyd â'r priodoliadau priodol.

- **Rhaid cyflwyno'r ffurflen gynnig i CBAC o leiaf chwe wythnos cyn y dyddiad y mae'r ganolfan yn bwriadu dechrau'r uned asesiad di-arholiad. Bydd canolfannau'n derbyn adborth ar y cynnig asesiad di-arholiad ymhen 15 diwrnod gwaith.**

- Mae'r ffurflen gynnig ar gael ar dudalen y pwnc TGAU Hanes ar wefan CBAC

**ENGHREIFFTIAU O ASESIADAU DI-ARHOLIAD CBAC AR GYFER TGAU HANES**

**Enghraifft 1: Bu llawer o enghreifftiau o brotest wledig yng Nghymru a Lloegr yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd Terfysgoedd Rebeca yn un o'r rhain.**

(a) Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw'r ffynonellau rydych chi wedi'u dewis o ran esbonio pam y gwelwyd protestiadau gwledig fel bygythiad i'r gymdeithas ar ganol y bedwaredd ganrif ar bymtheg?

(b) Mae rhai haneswyr yn dadlau mai anghydfod am y tyrpegau wnaeth achosi Terfysgoedd Rebeca. Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o achosion Terfysgoedd Rebeca?

***Nid yw'n bosibl ateb y cwestiynau hyn os yw'r ganolfan yn dewis astudio Uned 1 Radicaliaeth a Phrotest, 1810-1848***

**Enghraifft 2: Roedd yr 1930au yn gyfnod o ddirwasgiad mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru a Lloegr.**

(a) Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw'r ffynonellau rydych chi wedi'u dewis o ran esbonio pam roedd dirwasgiad yn yr 1930au?

(b) Mae rhai haneswyr yn dadlau bod yr 1930au yn gyfnod o galedi i bobl Cymru a Lloegr. Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o effaith yr 1930au?

***Nid yw'n bosibl ateb y cwestiynau hyn os yw'r ganolfan yn dewis astudio Uned 1 Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951***

**Enghraifft 3: Achosodd y Rhyfel Byd Cyntaf newidiadau mawr ar fywydau pobl Cymru a Lloegr.**

(a) Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw'r ffynonellau rydych wedi'u dewis o ran esbonio sut effeithiodd y Rhyfel Byd Cyntaf ar fywydau menywod?

(b) Mae rhai haneswyr yn dadlau bod cadfridogion Prydain yn y Rhyfel Byd Cyntaf yn gwbl analluog. Pa mor ddilys yw'r dehongliad hwn o gadfridogion Prydain yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf?

**Enghraifft 4: Bu newid mawr ym mywydau pobl ar y Ffrynt Cartref yn ystod yr Ail Ryfel Byd.**

(a) Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw’r ffynonellau rydych wedi'u dewis o ran esbonio sut effeithiodd ymgilio ar fywydau pobl yn ystod yr Ail Ryfel Byd?

(b) Mae rhai haneswyr yn dadlau mai trychineb oedd y digwyddiadau yn Dunkirk yn 1940. Pa mor ddilys yw’r dehongliad hwn o’r digwyddiadau yn Dunkirk?

***Nid yw'n bosibl ateb y cwestiynau hyn os yw'r ganolfan yn dewis astudio Uned 1 Dirwasgiad, Rhyfel ac Adferiad, 1930-1951***

**Enghraifft 5: Roedd rheolaeth Lloegr yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn llym iawn. Arweiniodd Owain Glyndŵr wrthwynebiad i’r rheolaeth hon.**

(a) Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw’r ffynonellau rydych wedi’u dewis o ran esbonio pam roedd rheolaeth Lloegr yng Nghymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar ddeg yn llym iawn?

(b) Mae rhai haneswyr yn dadlau mai lleidr a bandit oedd Owain Glyndŵr, a dim mwy na hynny. Pa mor ddilys yw’r dehongliad hwn o Owain Glyndŵr?

**Enghraifft 6: Cafodd pobl ddu eu trin yn wael o dan y drefn arwahanu yn yr Unol Daleithiau. Roedd Martin Luther King yn allweddol wrth ddod â’r drefn arwahanu i ben.**

(a) Pa mor ddefnyddiol a dibynadwy yw’r ffynonellau rydych wedi'u dewis o ran esbonio sut cafodd rhai pobl ddu eu trin dan y drefn arwahanu yn y UDA.

(b) Mae rhai haneswyr yn dadlau mai dylanwad Martin Luther King oedd y prif reswm i arwahanu ddod i ben yn yr Unol Daleithiau. Pa mor ddilys yw’r dehongliad hwn o ddylanwad Martin Luther King?

## GWEINYDDU'R ASESIAD DI-ARHOLIAD

**Mae’n rhaid i’r asesiad di-arholiad cyflawn fod ar ffurf dau ddarn o waith ysgrifenedig**, yn ateb y cwestiynau a osodwyd, yn gwerthuso ffynonellau a ddewiswyd ac yn gwerthuso dehongliadau gwahanol.

Argymhellir y dylai’r asesiad dan reolaeth **cyflawn** fod **tua 2500 o eiriau o hyd** (ac eithrio ffynonellau, data, darluniau ayyb). Dylai atebion rhan (a) fod tua 1000 o eiriau ac atebion rhan b) fod tua 1500 o eiriau. **Gan mai ymarferiad wedi’i amseru yw’r asesiad di-arholiad, cyngor yn unig yw’r argymhelliad hwn.**

**Gellir cyflawni’r tasgau hyn ar unrhyw adeg yn ystod y cwrs, ond dim ond fel uned derfynol ar ddiwedd y cwrs y mae’n bosibl cofrestru am yr uned di-arholiad.**

## YMCHWIL A PHARATOI'R ASESIAD DI-ARHOLIAD

Yn **gyffredinol, mae gan yr agwedd hon lefel** gyfyngedig o reolaeth. Yn ystod y cam hwn, bydd data'n cael eu casglu a thystiolaeth yn cael ei rhoi at ei gilydd mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol.

### Rheoli dilysrwydd:

Dylai'r gwaith paratoi ar gyfer y dasg fod dan **reolaeth gyfyngedig**. Rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o'r gwaith paratoi ar gyfer y dasg yn cael ei wneud yn y dosbarth o dan oruchwyliaeth yr athro. Gellir rhoi'r tasgau asesiad di-arholiad a'r casgliad o ffynonellau ar yr adeg hon. Caniateir i beth gwaith paratoi gael ei wneud y tu allan i'r wers.

### Rheoli adborth:

Yn ystod y cam paratoi, bydd yr athro yn addysgu cynnwys y maes testun a gytunwyd. Bydd hyn yn cynnwys gwersi a gwaith ffurfiol fel yn unedau eraill y cwrs. Mae angen cyflwyno'r maes a ddewiswyd ar gyfer yr asesiad ac addysgu a thrafod materion penodol o ran ymchwiliad a dehongliadau.

Gan mai rheolaeth gyfyngedig sydd i'r elfen hon, gall athrawon wneud y canlynol:

- adolygu gwaith ymgeiswyr a rhoi cyngor llafar neu ysgrifenedig **ar lefel gyffredinol**
- gwerthuso'r cynnydd hyd yn hyn a chynnig awgrymiadau bras ar sut i wella
- gellir rhoi arweiniad hefyd ar y cyd-destun hanesyddol, materion yn ymwneud â gwerthuso ffynonellau a thrafod dehongliadau.

Wrth i'r cam ymchwil a pharatoi gael ei gwblhau, ni all athrawon wneud y canlynol:

- rhoi cyngor penodol manwl ar sut i wella drafftiau i fodloni meini prawf asesu
- rhoi adborth manwl ar wallau a hepgoriadau sy'n golygu nad oes gan ymgeiswyr gyfle o gwbl i ddangos menter eu hunain
- ymyrryd yn bersonol i wella cyflwyniad neu gynnwys y gwaith.

### Rheoli amser:

Argymhellir y dylai'r cam paratoi, yn cynnwys amser addysgu, gymryd **rhwng 8 a 10 wythnos i gyd.** Cynlluniwyd y cyfnod amser hwn i ddiwallu anghenion yr ymgeiswyr sydd o bosibl angen amser ychwanegol oherwydd materion fel anawsterau dysgu neu anableddau.

**Rheoli cydweithio:**

Gall gwaith ymgeiswyr unigol elwa o weithio gydag eraill ar y cam hwn, ond mae'n rhaid i ymgeiswyr gynhyrchu ymateb unigol yn y pen draw. Mae angen i'r athro fod yn sicr mai gwaith yr ymgeisydd ei hun yw'r gwaith.

**Rheoli adnoddau:**

Bydd yr un casgliad o ddeunydd ffynhonnell ar gael i'r ymgeiswyr. Bydd cyfleoedd i ddewis deunydd perthnasol a phriodol o'r hyn a ddarperir. Gellir annog ymgeiswyr i ddod o hyd i'w deunydd eu hunain i'w ddefnyddio, ond nid yw hyn yn rhan orfodol o'r asesiad di-arholiad ac ni ellir rhoi marciau am y gweithgaredd hwn.

## CWBLHAU'R ASESIAD DI-ARHOLIAD: DADANSODDI A GWERTHUSO CASGLIADAU

Yn gyffredinol mae gan yr agwedd hon ar Asesu Di-arholiad **lefel uchel o reolaeth**.

**Rheoli dilysrwydd:**

**Mae'n rhaid cwblhau'r asesiad di-arholiad o dan oruchwyliaeth ffurfiol**, fel arfer yn ystod gwers. Gall ymgeiswyr ysgrifennu'r gwaith neu ddefnyddio TGCh, lle y bo'n briodol.

**Rheoli adborth:**

Wrth gwblhau'r asesiad di-arholiad, caniateir i athrawon gyfathrebu ag ymgeiswyr i esbonio materion, ond nid i gynnig awgrymiadau neu atebion ar gyfer cwblhau'r tasgau. Gall athrawon roi help o ran materion technegol fel defnyddio offer TGCh neu ddefnyddio systemau llyfrgelloedd.

**Rheoli amser:**

**Rhaid cwblhau'r asesiad dan reolaeth o fewn pum awr o amser ffurfiol o dan oruchwyliaeth.**

Dylai gymryd hyd at 2 awr i gwblhau tasg (a).
Dylai gymryd hyd at 3 awr i gwblhau tasg (b).

Nid oes angen i hyn fod mewn un bloc. Gellir ei ymestyn dros gyfres o sesiynau. Dylai ymgeiswyr y gall fod angen amser ychwanegol arnynt oherwydd anawsterau dysgu neu anableddau gyflwyno cais am ystyriaeth arbennig. Mae'n rhaid casglu deunydd paratoadol ac unrhyw waith ysgrifenedig sydd heb ei orffen ar ôl sesiwn a'u rhoi allan ar ddechrau'r sesiwn nesaf.

**Rheoli cydweithio:**

Mae'n rhaid i bob ymgeisydd gwblhau'r tasgau asesiad dan reolaeth yn annibynnol.

**Rheoli adnoddau:**

Yn ystod y cyfnod dadansoddi a gwerthuso, caniateir i ymgeiswyr ddefnyddio'r deunydd a gasglwyd yn ystod y cyfnod ymchwil a pharatoi yn unig i gwblhau'r asesiad di-arholiad. Ni chaniateir defnyddio unrhyw ffynonellau eraill o gefnogaeth yn ystod y cyfnod hwn.

**MARCIO TASGAU**

Yn gyffredinol mae gan yr agwedd hon lefel **ganolig** o reolaeth.

**Marcio cychwynnol**

**Bydd athrawon yn y ganolfan yn marcio'r asesiad di-arholiad gan ddefnyddio'r cynllun marcio cyffredinol a ddarperir gan CBAC.** Gellir ysgrifennu nodiadau ar y gwaith yn y testun neu ar ddiwedd y gwaith neu drwy gyfuniad o'r ddau. Bydd ffurflen sy'n rhoi arweiniad ar farcio ar gael i'r canolfannau ei defnyddio. Mae angen i'r anodi ddangos sut a pham y dyfarnwyd lefel a marc penodol. Mae angen cyfeirio unrhyw anodi at y safonwr.

**Os bydd athro/athrawes yn dewis darparu ffrâm ysgrifennu strwythuredig er mwyn cefnogi dysgu rhai ymgeiswyr yn y cam ymchwil a pharatoi, ni ddylid rhoi marciau uwch na Band 2 wrth asesu'r dadansoddi a gwerthuso casgliadau'n derfynol.**

**Safoni Mewnol**

Safoni mewnol yw'r broses a ddefnyddir i wirio cywirdeb a chysondeb gwaith ymgeiswyr mewn grwpiau dysgu gwahanol mewn canolfan. Rhaid gwneud hyn cyn dewis y sampl. Dylai athro sy'n gyfrifol am y cwrs wirio y cymhwyswyd y safonau marcio a gytunwyd mewn modd cyson, ac addasu'r marciau os oes angen. Dylid darparu manylion unrhyw safoni mewnol pan anfonir y sampl at safonwr CBAC.

**Dilysu Asesiad Di-arholiad**

Mae'n ofynnol i ymgeiswyr lofnodi mai eu gwaith eu hunain yw'r gwaith a gyflwynir ac mae'n ofynnol i athrawon / aseswyr gadarnhau mai gwaith yr ymgeisydd dan sylw'n unig yw'r gwaith a aseswyd ac iddo gael ei gynnal o dan yr amodau gofynnol. Darperir ffurflen ddilysu ar gyfer gwneud hyn. Mae'n bwysig nodi y bydd yn ofynnol i bob ymgeisydd lofnodi'r ffurflen hon ac nid yn unig y rhai y mae eu gwaith yn ffurfio rhan o'r sampl a gyflwynwyd i'r safonwr. Lle y caiff unrhyw gamymddwyn ei ddarganfod cyn i'r datganiad dilysu gael ei lofnodi, nid oes angen cyflwyno adroddiad ar hyn i CBAC, ond yn hytrach dylid ymdrin â'r mater yn unol â gweithdrefnau mewnol y ganolfan.

Cyn ymgymryd ag unrhyw waith tuag at yr asesiad di-arholiad, dylid tynnu sylw ymgeiswyr at yr Hysbysiad i Ymgeiswyr perthnasol gan y CGC. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan y CGC (JCQ) www.jcq.org.uk) yn Saesneg ac ar wefan CBAC (www.cbac.co.uk) yn Gymraeg. Mae'n cael ei chynnwys hefyd yn y ddogfen *Cyfarwyddiadau ar gynnal Gwaith Cwrs/Portffolios.* Mae'r ddogfen *Llên-ladrad mewn Arholiadau: Arweiniad ar gyfer Athrawon / Aseswyr* yn cynnig arweiniad mwy manwl ar atal llên-ladrad.

**Safoni'r Asesiad Di-arholiad yn Allanol**

Safoni allanol yw’r broses a ddefnyddir i wirio cywirdeb a chysondeb marciau y bydd y ganolfan yn eu dyfarnu. Gwneir hyn drwy wirio sampl o’r gwaith o ganolfan. Gwneir hyn gan safonwr a benodir gan CBAC. Bydd CBAC yn cyhoeddi llawlyfr Asesiad Mewnol cyffredinol bob blwyddyn sy'n cynnwys gwybodaeth am ddewis sampl ar gyfer safoni allanol.

Bydd CBAC yn dethol y sampl yn electronig. Unwaith y bydd sampl wedi’i ddethol, dylai canolfannau wirio a sicrhau’r canlynol:

- bod ymgeiswyr o bob grŵp addysgu wedi’u cynrychioli
- mewn canolfannau dwyieithog, bod gwaith yn cael ei gyflwyno yn Gymraeg a Saesneg.
- dylai'r sampl gynnwys enghreifftiau o waith y ddau ryw, lle y bo'n briodol

Dylai canolfannau hefyd anfon y dogfennau canlynol at y safonwr a benodir ar eu cyfer:

- unrhyw ffurflenni gweinyddol perthnasol
- copïau o’r cynlluniau marcio a ddefnyddiwyd, yn enwedig os yw’r gwaith mewn cyd-destun
- copïau o’r pecynnau ffynonellau a ddefnyddiwyd
- unrhyw wybodaeth bellach y dylai’r safonwr wybod amdani yn eich barn chi

## CYNLLUN MARCIO GENERIG – ASESIAD DI-ARHOLIAD

**RHAN A** **[14 MARC]**

| | | |
|---|---|---|
| *Targedau: AA1* | | *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o brif nodweddion a phriodoleddau'r cyfnodau a astudiwyd.* |
| | *AO2* | *Esbonio a dadansoddi digwyddiadau a chyfnodau hanesyddol a astudiwyd gan ddefnyddio cysyniadau hanesyddol yr ail drefn.* |
| | *AO3* | *Dadansoddi, gwerthuso a defnyddio ffynonellau er mwyn dod i farn wedi'i chyfiawnhau, yng nghyd-destun y digwyddiadau hanesyddol a astudiwyd* |

**Amcan Asesu 1** **[2 farc]**

Dyfarnwch 0 marciau am waith nad yw'n haeddu credyd.

**Band 1** Mae ymgeiswyr yn dewis, trefnu ac yn cyflwyno gwybodaeth hanesyddol sy'n gywir a pherthnasol; byddant yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n canolbwyntio ar y cwestiwn a osodwyd. Bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn gywir ar y cyfan yn yr ymatebion gan ddefnyddio termau hanesyddol yn briodol *[1 marc]*

**Band 2** Mae ymgeiswyr yn dewis, trefnu a chyflwyno gwybodaeth hanesyddol fanwl yn effeithiol ac yn gyson; byddant yn dangos dealltwriaeth drylwyr, sy'n canolbwyntio'n llawn ar y cwestiwn a osodwyd; bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr ymatebion yn gywir gan ddefnyddio termau hanesyddol yn gywir ac yn briodol. *[2 farc]*

**Amcan Asesu 2** **[4 marc]**

Dyfarnwch 0 marciau am waith nad yw'n haeddu credyd.

**Band 1** Mae ymgeiswyr yn dechrau cynnig esboniad am y mater gosod; bydd unrhyw gasgliad yn wan a heb ei gefnogi. *[1 marc]*

**Band 2** Mae ymgeiswyr yn cynnig esboniad cyfyngedig am y mater gosod ond yn tueddu i golli'r trywydd; byddant yn dod i gasgliad syml heb fawr o gefnogaeth. *[2 farc]*

**Band 3** Mae ymgeiswyr yn cynnig esboniad a dadansoddiad clir o'r mater gosod; byddant yn dod i gasgliad wedi'i gefnogi'n dda; peth anghydbwysedd i'w ddisgwyl. *[3 marc]*

**Band 4** Mae ymgeiswyr yn dadansoddi'r mater gosod gan roi esboniad sy'n ddatblygedig, rhesymedig ac wedi'i gyfiawnhau'n dda; byddant yn dod i werthusiad cytbwys sydd wedi'i gefnogi'n dda. *[4 marc]*

**Amcan Asesu 3** **[8 marc]**

Dyfarnwch 0 marciau am waith nad yw'n haeddu credyd.

**Band 1** Mae gan yr ymgeiswyr ddealltwriaeth arwynebol o'r deunydd ffynhonnell. Maent yn dechrau ystyried ei ddefnyddioldeb o ran ymchwilio i'r mater a osodwyd a gallant ddod i gasgliadau syml am y mater. *[1-2 farc]*

**Band 2** Mae ymgeiswyr yn dechrau gwerthuso amrediad o ddeunydd ffynhonnell er mwyn ymchwilio i'r mater gosod; maent yn dod i gasgliadau syml am y mater. *[3-4 marc]*

**Band 3** Mae ymgeiswyr yn gwerthuso ac yn defnyddio amrediad o ddeunydd ffynhonnell yn feirniadol i ymchwilio i'r mater gosod; maent yn defnyddio tystiolaeth ddethol i ddod i gasgliadau rhesymedig am y mater. *[5-6 marc]*

**Band 4** Mae ymgeiswyr yn gwerthuso ac yn defnyddio amrediad eang o ddeunydd ffynhonnell yn feirniadol i ymchwilio i'r mater gosod; maent yn defnyddio'r dystiolaeth ddethol i ddod i gasgliadau rhesymedig a chadarn am y mater. *[7-8 marc]*

**RHAN B** **[26 MARC]**

| | | |
|---|---|---|
| *Targedau:* | *AA1* | *Dangos gwybodaeth a dealltwriaeth o brif nodweddion a phriodoleddau'r cyfnodau a astudiwyd.* |
| | *AA2* | *Esbonio a dadansoddi digwyddiadau a chyfnodau hanesyddol a astudiwyd gan ddefnyddio cysyniadau hanesyddol yr ail drefn* |
| | *AA4* | *Dadansoddi, gwerthuso a dod i farn wedi'i chyfiawnhau am ddehongliadau yng nghyd-destun y digwyddiadau hanesyddol a astudiwyd* |

**Amcan Asesu 1** **[4 marc]**

Dyfarnwch 0 marciau am waith nad yw'n haeddu credyd.

**Band 1** Mae ymgeiswyr yn dewis ac yn trefnu peth gwybodaeth hanesyddol. Byddant yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth sylfaenol o ddeall y cwestiwn a osodwyd. Bydd ansawdd priodol i rywfaint o'r cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion. *[1 marc]*

**Band 2** Mae ymgeiswyr yn dewis, trefnu a chyflwyno gwybodaeth hanesyddol sy'n berthnasol ar y cyfan; byddant yn dangos rhywfaint o ddealltwriaeth o'r cwestiwn a osodwyd; Bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr atebion yn gywir ar y cyfan gyda rhai termau hanesyddol yn cael eu defnyddio'n briodol. *[2 farc]*

**Band 3** Mae ymgeiswyr yn dewis, trefnu ac yn cyflwyno gwybodaeth hanesyddol sy'n gywir a pherthnasol; byddant yn dangos dealltwriaeth gadarn sy'n canolbwyntio ar y cwestiwn a osodwyd. Bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn gywir ar y cyfan yn yr ymatebion gan ddefnyddio termau hanesyddol yn briodol *[3 marc]*

**Band 4** Mae ymgeiswyr yn dewis, trefnu a chyflwyno gwybodaeth hanesyddol fanwl yn effeithiol ac yn gyson; byddant yn dangos dealltwriaeth drylwyr, sy'n canolbwyntio'n llawn ar y cwestiwn a osodwyd; bydd ansawdd y cyfathrebu ysgrifenedig yn yr ymatebion yn gywir gan ddefnyddio termau hanesyddol yn gywir ac yn briodol. *[4 marc]*

**Amcan Asesu 2** **[4 marc]**

Dyfarnwch 0 marciau am waith nad yw'n haeddu credyd.

**Band 1** Mae ymgeiswyr yn dechrau cynnig esboniad am y mater gosod; bydd unrhyw gasgliad yn wan a heb ei gefnogi. *[1 marc]*

**Band 2** Mae ymgeiswyr yn cynnig esboniad am y mater gosod ond yn tueddu i golli'r trywydd; byddant yn dod i gasgliad syml heb fawr o gefnogaeth. *[2 farc]*

**Band 3** Mae ymgeiswyr yn cynnig esboniad a dadansoddiad clir o'r mater gosod; byddant yn dod i gasgliad wedi'i gefnogi'n dda; peth anghydbwysedd i'w ddisgwyl. *[3 marc]*

**Band 4** Mae ymgeiswyr yn dadansoddi'r mater gosod gan roi esboniad sy'n ddatblygedig, rhesymedig ac wedi'i gyfiawnhau'n dda; byddant yn dod i werthusiad cytbwys sydd wedi'i gefnogi'n dda. *[4 marc]*

**Amcan Asesu 4** **[18 marc]**

Dyfarnwch 0 marciau am waith nad yw'n haeddu credyd.

**Band 1** Mae ymgeiswyr yn nodi rhai gwahaniaethau yn y ffyrdd mae'r mater wedi cael ei gynrychioli neu ei ddehongli. Byddant yn rhoi rhesymau cyfyngedig dros y gwahaniaethau hyn drwy gopïo neu aralleirio deunydd ffynhonnell. *[1-4 marc]*

**Band 2** Mae ymgeiswyr yn rhoi sylwadau ar sut y cynrychiolwyd ac y dehonglwyd y mater hwn mewn gwahanol ffyrdd. Byddant yn rhoi rhai rhesymau gan ddefnyddio'r deunydd ffynhonnell fel sail. Byddant yn rhoi gwerthusiad cyfyngedig o ddilysrwydd gwahanol ddehongliadau neu gynrychioliadau. *[5-8 marc]*

**Band 3** Mae ymgeiswyr yn cydnabod sut y cynrychiolwyd ac y dehonglwyd y mater mewn gwahanol ffyrdd ac yn gwneud sylwadau ar hynny. Byddant yn dadansoddi'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn a seilio hynny ar ddethol deunydd ffynhonnell priodol. Dylid defnyddio rhai o'r canlynol yn yr esboniadau maent yn eu rhoi: pwrpas, cynulleidfa, cyd-destun, cyfrwng a chwirdeb y ffynonellau a ddetholwyd. Byddant yn rhoi gwerthusiad cadarn o ddilysrwydd y gwahanol gynrychioliadau a dehongliadau. *[9-13 marc]*

**Band 4** Mae ymgeiswyr yn cydnabod sut y cynrychiolwyd ac y dehonglwyd y mater mewn gwahanol ffyrdd ac yn gwneud sylwadau rhesymedig ar hynny. Byddant yn dadansoddi'r rhesymau dros y gwahaniaethau hyn yn seiliedig ar ddethol deunydd ffynhonnell yn ofalus. Dylid defnyddio rhai o'r canlynol yn yr esboniadau maent yn eu rhoi: pwrpas, cynulleidfa, cyd-destun, cyfrwng a chwirdeb y ffynonellau a ddetholwyd; Byddant yn rhoi gwerthusiad datblygedig o ddilysrwydd gwahanol ddehongliadau neu gynrychioliadau mewn perthynas â'r cyd-destun hanesyddol. *[14-18 marc]*